HM Government

# Adroddiad ar ganfyddiadau a gweithredu'r adolygiad hollgynhwysol o dreisio

Mehefin 2021

CP 437

HM Government

# Adroddiad ar ganfyddiadau a gweithredu’r adroddiad hollgynhwysol o dreisio

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mehefin 2021

CP 437

**© Hawlfraint y Goron 2021**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn judicialreview@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-2667-5

CCS0521654242 06/21

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan yr APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Rhagair gan y Gweinidogion

Mae treisio a thrais rhywiol yn droseddau erchyll a dinistriol sy’n gallu effeithio ar ddioddefwyr am weddill eu hoes. Pan fydd dioddefwyr yn cymryd y cam dewr o roi gwybod am y trosedd, byddant yn datgelu ac yn ail-fyw eu trawma dwfn a phersonol, er budd cyfiawnder ac amddiffyn eraill. Mae angen i ni gyflawni er eu mwyn nhw a’r cyhoedd: ymchwilio i’r troseddau hyn a’u herlyn yn broffesiynol, yn ddiwyd a gydag empathi, gan sicrhau bod dioddefwyr y trosedd ofnadwy hwn yn cael y gefnogaeth y maent yn ei haeddu.

Canfu’r Adolygiad Treisio nad yw hyn yn digwydd mewn gormod o achosion. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y cyhuddiadau ac erlyniadau am achosion o dreisio ac, o ganlyniad, bu llai o euogfarnau. Yn ystod yr un cyfnod, ni fu llawer o newid yn nifer cyffredinol y troseddau trais rhywiol a threisio rhywiol.[1] Nid yw’r mwyafrif helaeth o ddioddefwyr yn gweld bod y trosedd yn eu herbyn yn cael cyhuddiad ac yn cyrraedd llys: mae un o bob dau ddioddefwr yn tynnu allan o ymchwiliadau trais rhywiol.

Mae’r rhain yn dueddiadau y mae gennym gywilydd mawr ohonynt. Mae dioddefwyr trais rhywiol yn cael cam. Mae miloedd o ddioddefwyr wedi mynd heb gyfiawnder ac mae miloedd o dreiswyr wedi mynd yn rhydd. Ond nid mater o rifau’n unig yw hyn – mae pob achos yn cynnwys person go iawn sydd wedi dioddef trosedd wirioneddol ofnadwy.

Mae ein cenhadaeth wedi'i nodi yn y cyhoeddiad hwn, sef deall pam rydym yn gwneud cam â dioddefwyr trais rhywiol, a chywiro hyn. Byddwn yn parhau i feithrin hyder dioddefwyr i ddod ymlaen a rhoi gwybod i’r heddlu am y troseddau erchyll hyn. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn cofnodi trais rhywiol gan yr heddlu a rhaid i ni barhau i wneud cynnydd i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu trin yn broffesiynol ac yn sensitif, a bod eu troseddwyr yn cael eu hymchwilio a’u herlyn, fel bod y rhai sy’n cyflawni’r troseddau hyn yn teimlo grym llawn y gyfraith. Mae dioddefwyr wedi dweud wrthym fod gennym gryn ffordd i fynd cyn i hyn gael ei wireddu.

Yn groes i’r ffordd y mae trais rhywiol yn cael ei ddarlunio’n aml yn y cyfryngau, mae’r rhan fwyaf o’r troseddau hyn yn cael eu cyflawni gan rywun y mae’r dioddefwr yn ei adnabod. Oherwydd hyn, mae ymchwiliadau’n bersonol ac yn ymwthiol iawn i’r dioddefwr. Mae trawma’r trosedd a’u profiad dilynol yn golygu bod llawer o ddioddefwyr yn ymddieithrio oddi wrth y broses cyfiawnder troseddol. Heb i'r dioddefwr ymgysylltu, mae anodd iawn erlyn a dedfrydu. Ond pan fydd achosion yn cael eu herlyn, a dioddefwyr yn dal i ymwneud

[1] Ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

â'u hachos, gwelwn ganlyniadau: yn 2019-20, roedd 27%[2] o'r diffynyddion trais rhywiol wedi pledio'n euog, ac roedd gennym gyfradd euogfarnau o 69% yn gyffredinol.[3]

Nid ydym yn barod i dderbyn bod trais rhywiol yn drosedd 'rhy anodd' i'w erlyn. Gallwn, a rhaid inni, wneud yn well. Wrth galon yr Adolygiad hwn mae newid diwylliant a system i sicrhau bod dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu parhau i ymwneud â'u hachos. Dylai hyn, ynghyd â dulliau paratoi achosion cryfach a rhai wedi'u diweddaru, yn ogystal â mwy o gyfathrebu rhwng pawb sy'n ymwneud â'r erlyniad, arwain at fwy o achosion yn cyrraedd y llys a mwy o ddiffynyddion yn pledio'n euog. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyder i ddioddefwyr y bydd cyfiawnder yn cael ei wasanaethu yn eu hachosion unigol, gan helpu i gynnal ymgysylltiad â dioddefwyr, a sicrhau bod mwy o oroeswyr yn cael eu dwyn gerbron y llys.

Mae'r Adolygiad hwn yn ymrwymo i wrthdroi tueddiadau'r pum mlynedd diwethaf mewn modd ymwybodol. Rydym yn disgwyl gweld nifer yr achosion a atgyfeirir gan yr heddlu i Wasanaeth Erlyn y Goron, a gyhuddir ac sy'n cyrraedd y llys, yn dychwelyd i lefelau 2016 erbyn diwedd y Senedd hon. Mewn termau real, mae hyn yn golygu y bydd dros fil yn fwy o ddioddefwyr yn gweld eu hachosion yn mynd yn eu blaen.

Gwyddom fod dioddefwyr a'r mudiadau sy'n eu cefnogi wedi cael eu siomi'n fawr yn y gorffennol. Nid dyma'r darn cyntaf o waith yn y maes hwn, ac mae'r nifer cyson isel o achosion sy'n cael eu cyhuddo a'u herlyn wedi erydu ymddiriedaeth. Mae angen i'r Llywodraeth barhau i hybu brys a sylw ar yr agenda hon, gan roi hyder i ddioddefwyr bod y system yn agored ac yn ymroddedig i newid a darparu ffyrdd i'r cyhoedd ei dal yn atebol am y newid hwnnw.

Er mwyn pob person y mae ei fywyd wedi newid am byth drwy drais rhywiol dylem sicrhau bod y newidiadau hyn yn digwydd. Nawr yw'r amser i ni gamu i fyny, gwneud yn well, a sicrhau gwelliannau parhaol i'r ffordd rydym yn ymchwilio i drais ac yn ei erlyn er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi'n briodol a'u bod nhw, a'r cyhoedd, yn gallu bod yn hyderus y bydd y rhai sy'n cyflawni'r weithred ofnadwy hon yn teimlo grym llawn y gyfraith.

**Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS**

**Ysgrifennydd Cartref**

---

2 Dyma raniad ychwanegol o'r data cyhoeddedig presennol ar bledio'n euog am droseddau rhywiol a gyhoeddir yma: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/944741/cc_plea_tool.xlsx. Cafodd ei gynhyrchu i'w ddefnyddio yn yr adroddiad hwn a chaiff ei gynnwys mewn datganiadau Ystadegau Gwladol dilynol o'r arf ple yng nghyfres cyhoeddiadau Ystadegau'r Llys Troseddol.

3 Gwasanaeth Erlyn y Goron, crynodeb data GEG Chwarter 4 2019–2020: Violence Against Women and Girls Annual Data Tables Year Ending March 2020. Sylwch fod cyfradd euogfarnau Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn cynnwys achosion a nodwyd yn wreiddiol fel trais rhywiol, a gallai hynny arwain at lai o newid.

**Y Gwir Robert Buckland CF AS**
**Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**

**Y Gwir Anrhydeddus Michael Ellis CF AS**
**Y Twrnai Cyffredinol**

# Rhagair gan Emily Hunt, Cynghorydd Annibynnol i'r Adolygiad

Un diwrnod ym mis Mai 2015 deffrais mewn gwely gwesty wrth ymyl dyn na welais erioed mohono o'r blaen. Roedd fy nghof yn hollol wag am ble'r oeddwn, sut y cyrhaeddais yno a beth a ddigwyddodd dros y pum awr flaenorol. Credais yn syth i mi gael fy nrygio gan amau hefyd fy mod wedi cael fy nhreisio.

Ffoniais yr heddlu'n syth. Roedd gen i ffydd yn y system cyfiawnder troseddol bryd hynny, gan gymryd y byddai'r llwybr o adrodd y trosedd i'w erlyn yn y llys yn anodd, ac mae'n debyg yn annifyr iawn, ond fwy neu lai'n ddidramgwydd. Yr hyn a ddysgais o 'mhrofiad ac yn y blynyddoedd ers y noson honno yw pa mor aml y mae ein system cyfiawnder troseddol yn gadael dioddefwyr treisio i lawr.

Pa mor aml y mae'r system cyfiawnder troseddol yn gadael dioddefwyr treisio i lawr? Mae'r ateb yn un anesmwyth iawn: bron bob tro.

Mae tua 128,000 o bobl yn cael eu treisio bob blwyddyn.[4] Mae llai na 20% yn adrodd y trosedd i'r heddlu.[5] Gwaeth fyth, dim ond 1.6% o achosion treisio a adroddir sy'n arwain at gyhuddo rhywun.[6] Mae hynny'n golygu bod llai nag un o bob 100 o achosion treisio'n rhoi cyfiawnder i'w dioddefwyr. Hynny oedd fy mhrofiad innau hefyd. Fel gyda'r rhan fwyaf o ddioddefwyr, ni chafodd fy ymosodwr ei gyhuddo. Ni ddaeth erioed, ac mae'n debyg na ddaw byth, o flaen rheithgor i benderfynu ei euogrwydd.

Nid oherwydd bod pobl yn gwneud honiadau ffug o dreisio, fel y mae rhai'n ei honni, yw'r rheswm am y gyfradd erlyn isel.[7] Dengys gwaith ymchwil blaenorol gan y Swyddfa Gartref y gall fod hyd at 3% o honiadau treisio'n rhai ffug.[8] Sy'n golygu eu bod yn wir tua 97% o'r amser. Y realiti bron bob tro, os yw rhywun yn dweud y cawsant eu treisio, yw eu bod yn dweud y gwir. Sy'n gwneud y sefyllfa bresennol yn fwy gwarthus ac annerbyniol fyth.

---

4 Ar sail data cyfunol ar gyfer 2017/18 a 2019/20. ONS, Trosolwg ar droseddau rhyw yng Nghymru a Lloegr am y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2020, Mawrth 2021

5 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mawrth 2021, Natur ymosodiadau rhyw drwy dreisio neu dreiddio rhywiol, Cymru a Lloegr: am y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2020

6 Y Swyddfa Gartref, Mai 2021, Canlyniadau Troseddu yng Nghymru a Lloegr am y flwyddyn hyd at Ragfyr 2020. Mae'r data a gyflwynir yma'n ymwneud â chanlyniadau am yr un flwyddyn ar gyfer pob achos o dreisio a gofnodwyd gan yr heddlu am y flwyddyn tan fis Rhagfyr 2020, gan gynnwys dioddefwyr o dan a thros 16 oed ac achosion sy'n aros am ganlyniad. Bydd y ffigurau a gyflwynir yma'n wahanol i'r rhai a gyflwynir mewn mannau eraill oherwydd gwahanol amseroedd, a gwahanol feini prawf adrodd.

7 https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/legal_guidance/perverting-course-of-justice-march-2013.pdf

8 https://www.researchgate.net/publication/238713283_Home_Office_Research_Study_293_A_gap_or_a_chasm_Attrition_in_reported_rape_cases

Mae'r system yn gwneud cam â degau o filoedd o ddioddefwyr treisio bob blwyddyn. Ond nid gwneud cam â dioddefwyr treisio yn unig sy'n digwydd. Mae'n gwneud cam â'n cymdeithas gyfan. Mae ein heddluoedd wedi dechrau sylweddoli – fel llawer o eraill o gwmpas y byd – bod treisio'n aml yn drosedd cyfresol. Mae llawer sydd heb eu dal yn treisio drosodd a throsodd. Mae angen i ni weld pob achos o dreisio heb ei erlyn fel un sy'n debycach na pheidio o arwain at achos arall o dreisio yn y dyfodol.[9] Yn lle hynny, mae erlyniadau treisio wedi plymio.

Gwyddom yn dda fod lleihad dramatig wedi bod mewn erlyniadau treisio ers 2016. Ym mis Mawrth 2019 comisiynodd y Llywodraeth Adolygiad Hollgynhwysol o Dreisio i ddeall a cheisio datrys yr hyn sy'n atal achosion treisio rhag mynd i'r llys. Mae'n fraint bod wedi cael ein gwahodd i'r broses fel Cynghorydd Arbenigol i'r Llywodraeth, ac yn bwysicach na dim, cyfrannu llais y dioddefwr i galon yr Adolygiad.

Mae gymaint i'w wneud. Mae'r Adolygiad hwn yn gychwyn ac yn ddatganiad pwysig o uchelgais. Mae'n egluro sut y bwriedir trawsnewid y sefyllfa ar draws y System Cyfiawnder Troseddol gan arlwyo'r ffordd i gefnogi dioddefwyr yn well, defnyddio dulliau newydd ar sail data o ymchwilio i dreisio, achosion sydd wedi eu paratoi'n well o'r dechrau, mwy o erlyniadau, mwy o anogaeth i bobl bledio'n euog yn gynnar, a threialon teg ac amserol. Credaf yn gryf yn hawl pob diffynnydd i gael treial teg – ac ni fyddai'r un o'r cynlluniau trawsnewid hyn yn amharu ar hyn er mwyn darparu cyfiawnder.

Yn anad dim, mae'r Adolygiad yn nodi'n glir bod yn rhaid i bob rhan o'r system fod yn atebol i bob un ohonom. Mae hefyd yn glir os nad yw nifer yr achosion treisio'n mynd i'r llys yn cynyddu i'r lefel oeddent cyn 2016 erbyn diwedd y senedd hon, y bydd angen cyflwyno a deddfu mwy o newidiadau radical i'r system . Ni fyddwn yn derbyn methiant mwyach.

Pan fydd dioddefwr yn cymryd y cam dewr o adrodd treisio i'r heddlu, mae'n eithriadol bwysig eu cefnogi, eu credu a gwneud iddynt deimlo fod rhywbeth yn cael ei wneud. Yn rhy aml nid yw hyn yn digwydd. Mae un o bob dwy sy'n adrodd treisio i'r heddlu'n rhoi'r gorau i'w hachosion o wirfodd.

Nid bai'r dioddefwr yw hyn ond methiant y system. Ac mae'n gwaethygu'r broblem oherwydd os yw dioddefwyr yn teimlo na fedrant fynd â'r maen i'r wal, ni allwn erlyn treiswyr. Felly fel cymdeithas ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod pob dioddefwr yn derbyn y cymorth emosiynol, ymarferol, therapiwtig a chyfreithiol hyd yn oed sydd ei angen arnynt i ddal ati gyda'u hachos Rhaid i ni gefnogi dioddefwyr treisio oherwydd y realiti, pan fyddant yn adrodd y trosedd, yw eu bod yn cymryd y cam dewr hwnnw ar ein rhan ninnau hefyd.

Ni ofynnodd neb am hyn. Nid oes neb eisiau teimlo bod yn rhaid iddynt sefyll i fyny drostynt eu hunain neu ddioddefwyr yn y dyfodol. Ac fel minnau, nid yw'r un dioddefwr eisiau darganfod bod y System Cyfiawnder Troseddol yn eu gadael i lawr.

Gallwn a rhaid i ni wneud yn well. Mi fyddwn yn gwneud yn well.

Dyma sut y mae dechrau.

---

9 https://www.documentcloud.org/documents/1699822-2002-lisak-repeatrapeinundetectedrapists.html

# Cynnwys

**Rhagair gan y Gweinidogion** **i**

**Rhagair gan Emily Hunt, Cynghorydd Annibynnol i'r Adolygiad** **iv**

**Crynodeb gweithredol** **viii**

Canlyniadau'r Adolygiad Treisio xiv

Ein cynllun gweithredu xv

Canlyniadau'r Adolygiad Treisio 2

Ein cynllun gweithredu 3

Cefndir a nodau'r Adolygiad ynghyd â rolau a chyfrifoldebau yn y system cyfiawnder troseddol wrth ddelio ag achosion troseddau rhyw a threisio 11

Dull o weithio 13

**Ein gweithredu i gyflawni ein canlyniadau** **17**

I – Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno newid cynaliadwy ar fyrder ac yn gweithredu fframwaith sy'n dal pob rhan o'r system yn atebol am eu cyfraniad unigol at welliannau 17

II – Gwella'r cymorth a roddir i ddioddefwyr ar draws y system cyfiawnder troseddol 21

III - Beth fydd yr heddlu a'r CPS yn ei wneud i drawsnewid sut y maen nhw'n ymchwilio i, ac erlyn, achosion 27

IV – Beth fydd yn digwydd yn y llys i sicrhau bod y profiad anochel anodd i ddioddefwyr o fynd i'r llys yn cael ei reoli'n ofalus gan ystyried eu hanghenion, heb fynd yn groes i'r egwyddor o dreial teg 39

**Y camau nesaf a gwaith ehangach** **42**

**Llyfryddiaeth** **44**

**Atodiad A – Rhai a gyfrannodd i'r adolygiad** **47**

# Crynodeb gweithredol

1. Dechreuodd Adolygiad Cynhwysfawr y Llywodraeth o Ymateb y System Cyfiawnder Troseddol i Dreisio ("yr Adolygiad Treisio") ym mis Mawrth 2019 ac edrychodd ar dystiolaeth ar draws y system – o adrodd i'r heddlu i ganlyniadau yn y llys – er mwyn deall beth sy'n digwydd wrth gyhuddo, erlyn ac euogfarnu mewn achosion o dreisio oedolion a throseddau rhywiol difrifol yng Nghymru a Lloegr.[10]

2. Ochr yn ochr â'r Adolygiad hwn, mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth sy'n amlinellu'r ymchwil sylfaenol yn fanylach.[11] Er bod y rhesymau niferus ac amrywiol dros beidio a chyfeirio, cyhuddo a chyrraedd y llys ar gyfer digon o achosion, mae'r rhain i gyd yn arwain at yr un canlyniad: mae gormod o ddioddefwyr trais rhywiol nad ydynt yn cael y cyfiawnder y maent yn ei haeddu.

3. Nid yw pa mor gyffredin yw treisio a thrais rhywiol wedi newid yn sylweddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'r amcangyfrifon gorau o'r Arolwg Troseddu ar gyfer Cymru a Lloegr yn dangos bod tua 128,000 o bobl wedi dioddef treisio (gan gynnwys ceisio treisio) bob blwyddyn ar sail y rheini a gafodd eu cyfweld rhwng 2017/18 a 2019/20.[12,13] Er bod y ffigurau ar gyfer erlyn achosion o dreisio bob amser wedi bod yn isel iawn, rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer yr erlyniadau ers 2016/17. Nid yw'r system cyfiawnder troseddol wedi cynnal a pharhau gydag ymchwiliadau ac erlyniadau, ac mae hynny wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion sy'n mynd i'r llys. Mae'r rhifau'n ddigon clir i'w darllen. Mae'r nifer sy'n adrodd achosion o dreisio wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf o 24,093 o achosion o dreisio oedolion a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2015/16 i 43,187 yn 2019/20.[14] Fodd bynnag, dim ond 3% o droseddau treisio oedolion a aseiniwyd i un o ganlyniadau'r heddlu yn 2019/20 a gafodd ganlyniad o gyhuddo/gwysio. Mae hyn yn ostyngiad o 13% o droseddau treisio oedolion yr aseiniwyd canlyniad iddynt yn

---

10 Er bod cylch gwaith yr Adolygiad wedi'i gyfyngu i achosion oedolion, sydd i ddibenion yr adolygiad hwn yn cyfeirio at unigolion 16 oed a hŷn, bydd llawer o'r canfyddiadau'n berthnasol i achosion troseddau rhywiol yn ehangach.

11 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, 2021, Review into the Criminal Justice System response to adult rape and serious sexual offences across England and Wales – Research Report

12 Roedd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn amcangyfrif bod 0.4% o bobl ifanc 16 i 74 oed yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu treisio neu wedi dioddef ymgais i'w treisio yn 2017–18 a 0.5% yn 2019–20. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021, Sexual offences prevalences and trends, England and Wales: year ending March 2020.

13 Mae amcangyfrifon Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn seiliedig ar brofiad dioddefwyr yn y deuddeg mis cyn cwblhau'r arolwg ac mae'n gyfartaledd o ddata cyfunol. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021, Sexual offences prevalences and trends, England and Wales: year ending March 2020.

14 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021, Sexual offences prevalences and trends, England and Wales: year ending March 2020.

2015/16.[15][16] Mae erlyniadau ac euogfarnau am drais rhywiol ymysg oedolion hefyd wedi gostwng 59% a 47% yn eu tro ers 2015/16.[17]

4. Mae'r ystadegau hyn yn dangos bod y system cyfiawnder troseddol yn siomi dioddefwyr[18] treisio ac ymosodiadau rhywiol. Ceir gwahaniaethau hefyd o ran dioddefwyr. Er bod y rhan fwyaf o ddioddefwyr trais rhywiol yn fenywod, gall y trosedd hwn gael effaith ddinistriol ar ddynion sy'n ddioddefwyr hefyd. Rydym yn ymwybodol bod y trosedd hwn yn cael ei gyflawni ar gyfradd uwch yn erbyn menywod anabl a'r rheini sy'n hoyw, yn lesbiaid, yn ddeurywiol neu o dueddfryd rhywiol arall.[19] Rydym wedi cyhoeddi Datganiad Cydraddoldeb ochr yn ochr â'r Adolygiad hwn i ddangos sut rydym wedi ystyried ein rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Rydym yn gweithio i wella'r data rydym yn ei gasglu am nodweddion troseddau, euogfarnau a dioddefwyr. Rhaid i ni hefyd gasglu data gwell am brofiad dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol ar bob cam yn y broses.

5. Mae'r sefyllfa bresennol yn gwbl annerbyniol ac mae'r Llywodraeth yn benderfynol o'i newid: mae arnom ddyled i bob dioddefwr ac mae'n flin iawn bod y system wedi cyrraedd y pwynt hwn.

6. Mae treisio yn sicr yn drosedd anodd i'w erlyn, ac mae'n aml yn dibynnu ar y fater o gydsyniad yn hytrach na'r weithred ei hun. Mae hefyd yn drosedd rheoli gan fod unigolyn yn mynnu ei ewyllys dros hawliau rhywun arall. Mae bob amser yn drawmatig iawn i'r dioddefwr, sydd nid yn unig yn teimlo ei fod wedi'i dorri, ond sy'n gallu teimlo cywilydd mawr. Mae'n fath neilltuol o drosedd, sy'n galw am ddull gweithredu arbenigol.

7. Canfu ein hymchwil fod y rhesymau dros y gostyngiad mewn achosion sy'n cyrraedd y llys yn gymhleth ac yn amrywiol, gan gynnwys cynnydd yn y data digidol personol y

---

15 Y Swyddfa Gartref, Data Canlyniadau'r Heddlu [tablau data agored] 2015–16 a 2019–20, cynhyrchwyd 29/04/2021. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar droseddau treisio oedolion lle bu cyhuddiad yn y blynyddoedd perthnasol, ni waeth pryd y cofnodwyd y trosedd gan yr heddlu. Sylwch fod y ffigur hwn yn wahanol i'r 1.6% a nodwyd yn y rhagair sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer pob achos o dreisio ac yn gyfyngedig i achosion a gofnodwyd yn yr un flwyddyn ag y cofnodwyd canlyniad y cyhuddo hefyd.

16 Y Swyddfa Gartref, Mai 2021, Crime Outcomes in England and Wales, year to December 2020. Er nad oes modd cymharu, mae ffigurau a gyhoeddwyd yn dangos bod 1.4% o'r holl achosion o dreisio a gofnodwyd yn 2019/20 wedi cael canlyniad cyhuddo yn yr un flwyddyn, i lawr o 7% yn 2015/16. Mae data mwy diweddar ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2020 yn dangos bod 1.6% o'r holl achosion o dreisio a gofnodwyd wedi cael canlyniad yr heddlu o gyhuddo yn ystod yr un flwyddyn, a gallai hynny gynnwys effeithiau sy'n gysylltiedig â Covid-19. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r holl droseddau treisio ac maent yn cynnwys achosion sy'n dal i ddisgwyl canlyniad ac mae'r gyfran derfynol o achosion lle cyhuddwyd yn debygol o gynyddu ychydig wrth i ymchwiliadau agored gael eu cau.

17 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, 2021, Review into the Criminal Justice System response to adult rape and serious sexual offences across England and Wales – Research Report

18 Defnyddir y term 'dioddefwr/dioddefwyr' i gyfeirio at y rheini y mae treisio a/neu ymosodiad rhywiol wedi effeithio arnynt. Mae'n cynnwys termau eraill fel 'achwynydd(wyr)', 'cleient(iaid)' a 'goroeswr(wyr)', fel y cyfeirir atynt gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, y grŵp ffocws a'r cyfweliadau. Tra'n cydnabod mai menywod yw'r rhan fwyaf o'r dioddefwyr, mae 'Dioddefwr' yn cwmpasu'r ddau ryw gan fod dynion sy'n ddioiddefwyr. Yn yr un modd, defnyddir y term 'y sawl sydd dan amheuaeth' i gyfeirio at rywun sy'n cael ei gyhuddo a/neu ei gael yn euog o dreisio neu ymosod yn rhywiol. Mae'n cynnwys 'troseddwr', 'cyflawnwr' a 'diffynnydd'.

19 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Sexual offences victim characteristics, England and Wales: year ending March 2020, March 2021 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/sexualoffencesvictimcharacteristicsenglandandwales/march2020

gofynnir amdano, oedi mewn prosesau ymchwilio, straen ar y berthynas rhwng gwahanol rannau o'r system cyfiawnder troseddol, diffyg adnoddau arbenigol a chefnogaeth anghyson i ddioddefwyr.

8. Gwyddom o'r gwaith manwl a wnaed gan grwpiau dioddefwyr fod dioddefwyr wedi cael eu trin yn wael. Mae dioddefwyr sydd wedi dweud eu bod wedi cael eu treisio yn aml yn cael gwybod na fydd eu hachos yn cael ei ystyried ymhellach, yn aml heb gael unrhyw fanylion nac esboniad o'r rhesymau pam, ac mae llawer yn teimlo nad ydynt yn gallu delio â straen ac effaith seicolegol hyn. Mae llawer o ddioddefwyr yn teimlo bod parhau i fynd ar drywydd eu hachos yn aflesol i'w hadferiad. Nid yw'n dderbyniol i ddioddefwyr deimlo bod yn rhaid iddynt wneud dewis rhwng cael cyfiawnder neu allu gwella o'u profiad.[20]

9. Mae adrodd am drais rhywiol yn cymryd llawer iawn o ddewrder, felly mae'n annioddefol bod y broses o fwrw ymlaen ag achos yn gallu bod mor boenus, rhwystredig a blinderus. Rhan fawr o'r broblem, yn ôl ein hymchwil, yw bod y system yn cael ei sefydlu mewn ffordd sy'n peri i lefel poenus o uchel o ddioddefwyr ymddieithrio oddi wrth y broses cyfiawnder troseddol cyn y gellir cyflawni cyfiawnder. Mewn gwirionedd, mewn 57% o'r holl achosion o drais yn erbyn oedolion, mae'r dioddefwr yn teimlo nad yw'n gallu bwrw ymlaen â'r achos.[21] Roedd rhai o'r prif resymau a roddwyd yn ymwneud â theimlo na fyddid yn eu credu neu y byddid yn eu barnu, yr effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl, ac ofn rhoi tystiolaeth yn y llys.[22] Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r hyn a ddywedodd nifer o ymarferwyr wrthym yn ystod yr Adolygiad hwn: bod dioddefwyr yn teimlo nad ydynt yn cael cymorth mewn system nad yw'n diwallu eu hanghenion. Rhaid inni wneud y broses yn haws i ddioddefwyr ar bob cam.

10. Mae'r problemau'n dechrau gyda'r modd y cynhelir ymchwiliadau ac y paratoir achosion. Rhaid inni anelu at wella profiad dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol, cynyddu nifer y dioddefwyr sy'n dal i ymgysylltu, a chreu achosion gwell a chryfach a fydd yn dod â throseddwyr o flaen eu gwell. Bydd hyn yn arwain at fwy o gyhuddo, mwy o bledio'n euog, a mwy o dreiswyr yn mynd i'r carchar. Yn ei dro, bydd hyn yn cynyddu hyder dioddefwyr yn y system. Rhaid i ni hefyd barhau i ganolbwyntio ar sicrhau treial teg: dylai pob un a amheuir a phob diffynnydd gael ei drin yn deg a pharhau i fod yn hyderus yn y system gyfiawnder. Credwn ei bod yn bosibl – ac yn hanfodol – cyflawni'r ddau.

11. Rydym eisoes wedi cymryd camau i sicrhau bod troseddwyr a geir yn euog o dreisio yn treulio mwy o amser yn y ddalfa. Ym mis Ebrill 2020, pasiodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth i sicrhau bod troseddwyr rhyw a threisgar difrifol, gan gynnwys y rhai a gafwyd yn euog o drais, yn cael eu dedfrydu i ddedfryd benodol safonol o fwy na saith mlynedd ac yn treulio dwy ran o dair o'u dedfryd yn y ddalfa, gan ei ymestyn o hanner ffordd drwy'r ddedfryd yn flaenorol. Gan fod y ddedfryd a roddir ar gyfartaledd am dreisio ychydig dan ddeng mlynedd, mae'r newidiadau hyn bellach yn golygu, yn hytrach na chael eu rhyddhau ar ôl pum mlynedd yn y carchar, y bydd yn rhaid i

20 Centre for Women's Justice, End Violence Against Women coalition, Imkaan and Rape Crisis England & Wales, 2020, The Decriminalisation of Rape: Why the justice system is failing rape survivors and what needs to change, Online

21 Canlyniad i'r heddlu a nodwyd yn 2019–20, y Swyddfa Gartref, 2020, cofnodion troseddol yr Heddlu a thablau data agored ar ganlyniadau. Cyrchwyd 29.04.2021.

22 Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr, 2020, Rape survivors and the criminal justice system, Llundain

droseddwr o'r fath dreulio bron i saith mlynedd – bron i ddwy flynedd ychwanegol yn y carchar – o ganlyniad.

12. Bydd Mesur yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd yn ymestyn y newid hwn i garfan arall o droseddwyr sy'n derbyn SDS o rhwng pedair a saith mlynedd ar gyfer rhai troseddau rhywiol neu dreisgar, gan gynnwys treisio. Bydd y troseddwyr hyn hefyd yn treulio dwy ran o dair o'u dedfryd yn y ddalfa yn hytrach na hanner y ddedfryd. Yr ydym yn gwneud y newidiadau hyn gan ein bod yn gwybod y gall dioddefwyr troseddau deimlo eu bod yn cael eu siomi gan y system pan ddywedir wrthynt y bydd troseddwr yn treulio naw mlynedd am dreisio, ond ei fod yn cael ei ryddhau ar ôl hanner hynny. Bydd cadw'r troseddwyr mwyaf difrifol yn y ddalfa tan y pwynt o ddwy ran o dair yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn a bod dioddefwyr yn teimlo'n ddiogel am fwy o amser.

13. Er bod yr Adolygiad hwn yn canolbwyntio ar oedolion sy'n dioddef treisio a thrais rhywiol, mae'n ffaith erchyll y bydd llawer o blant a phobl ifanc yn dioddef trais rhywiol a chamdriniaeth. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi plant a phobl ifanc y mae'r troseddau hyn yn effeithio arnynt, ac yn ddiweddar cyhoeddwyd y Strategaeth i Fynd i'r Afael â Cham-drin Plant yn Rhywiol, sy'n nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer atal a mynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol yn y wlad hon a thramor.

14. Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn hanfodol i leihau nifer y troseddau treisio a thrais rhywiol. Er ein bod wedi cyflwyno nifer o fesurau ataliol, gan gynnwys cyflwyno'r cwricwlwm Perthnasoedd, Rhyw ac Addysg Iechyd statudol sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd iach a sut mae adnabod a rhoi gwybod am gam-drin, gwyddom fod angen gwneud mwy.

15. Byddwn hefyd yn cyhoeddi Strategaeth newydd ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) yn nes ymlaen eleni. Bydd yn seiliedig ar arolwg cyhoeddus cyntaf erioed y Llywodraeth o brofiadau pobl o'r troseddau ffiaidd hyn, a gafodd gyfanswm o 180,000 o ymatebion. Dilynir Strategaeth VAWG gan Strategaeth Cam-drin yn y Cartref bwrpasol a chyflenwol.

16. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae partneriaid gweithredol eisoes wedi dechrau rhoi camau ar waith i wella'r ffordd rydym yn delio â'r achosion hyn, gan gynnwys sefydlu strwythur llywodraethu ffurfiol ar y cyd rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n goruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r **cynllun gweithredu cenedlaethol ar y cyd (JNAP)** gyda Grŵp Llywio sy'n cynnwys uwch swyddogion a swyddogion o'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Rydym hefyd wedi buddsoddi £176m yn ychwanegol i gynyddu'r gefnogaeth i ddioddefwyr treisio a cham-drin domestig. Fodd bynnag, nid ydym eto wedi gweld newid sylweddol yn nifer yr achosion lle cyhuddir rhywun yn ffurfiol. Mae angen i ni fynd ymhellach o lawer ac mae'r camau gweithredu yn yr Adolygiad hwn yn cynrychioli newid sylweddol yn ein dull gweithredu a dechrau'r newid rydym am ei weld.

### Beth fydd y Llywodraeth yn ei wneud:

17. Gwyddom fod dioddefwyr a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi wedi teimlo eu bod wedi cael eu siomi yn y gorffennol: nid dyma'r darn cyntaf o waith yn y maes hwn, ac mae'r nifer cyson isel o achosion sy'n arwain at gyhuddo ac erlyn wedi erydu

ymddiriedaeth. Mae angen i'r Llywodraeth barhau i bwysleisio bod brys a chanolbwyntio ar yr agenda hon, gan roi hyder i ddioddefwyr bod y system yn agored ac yn ymroddedig i newid a darparu ffyrdd i'r cyhoedd ei dal yn atebol. Mae nifer yr achosion sy'n cael eu cyfeirio gan yr heddlu, sy'n arwain at Wasanaeth Erlyn y Goron yn cyhuddo rhywun ac sy'n mynd i'r llys wedi gostwng yn sylweddol ers 2016 ac mae angen i ni wrthdroi'r duedd hon. Ein huchelgais cychwynnol yw:

- **gweld niferoedd yr achosion o dreisio sy'n cael eu cyfeirio gan yr heddlu, sy'n arwain at gyhuddiad ac sy'n mynd i'r llys yn dychwelyd yn ôl i lefelau 2016 erbyn diwedd y Senedd, a**

- **chyhoeddi cardiau sgorio rheolaidd i ddangos sut mae'r system gyfan yn perfformio i ddarparu tryloywder ac atebolrwydd am y tro cyntaf.**

### Beth fyddwn ni'n ei wneud i ddioddefwyr:

18. Mae'r Adolygiad wedi clywed bod dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu siomi ym mhob cam o'r broses cyfiawnder troseddol, nad yw llawer yn cael cymorth cyson na phriodol, a bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn methu â rhoi iddynt yr hawliau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae angen i bob rhan o'r broses weithio i gefnogi dioddefwyr, ac mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd camau penodol i gefnogi dioddefwyr, gan gynnwys gwella dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu.

19. Gall rhoi gwybod am dreisio fod yn brofiad dychrynllyd. Mae angen i'r system wneud popeth o fewn ei gallu i gyfyngu cymaint â phosibl ar y trawma. Rhaid bod ag empathi a bod yn effeithiol ar bob cam. Bydd dioddefwyr yn ganolog i'n hymateb, er mwyn i ni allu parhau i ddysgu beth sy'n gweithio orau iddyn nhw a byddwn yn defnyddio'r Bil Dioddefwyr sydd ar y gweill fel cyfrwng ar gyfer newid sylfaenol. Ein huchelgais yw sicrhau bod dioddefwyr sydd eisiau cymryd rhan yn y broses cyfiawnder troseddol yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny, eu cefnogi ar bob cam, a sicrhau eu bod yn cael yr hawliau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae'n golygu:

- sicrhau bod dioddefwyr yn **gallu cael gafael ar gefnogaeth o safon, sy'n briodol i'w hanghenion, pan fydd ei hangen arnynt;**

- **sicrhau mynediad at y cymorth therapiwtig a chlinigol cywir, a chefnogaeth emosiynol ac ymarferol, fel Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA)** lle bo'n briodol, gyda mynediad heb fod yn dibynnu ar ble maent yn y wlad;

- sicrhau bod dioddefwyr yn gallu **cael gafael ar gymorth a chyngor cyfreithiol i ddeall a herio penderfyniadau datgelu**; a

- **dal asiantaethau cyfiawnder troseddol yn atebol** pan fyddant yn methu â rhoi'r hawliau hyn i ddioddefwyr y mae ganddynt hawl iddynt.

### Bydd yr Heddlu yn gwneud y canlynol:

20. Mae'r Adolygiad wedi clywed bod dioddefwyr treisio yn teimlo'n rhy aml mai nhw yw'r rhai yr ymchwilir iddynt ac nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu credu. Gwyddom hefyd fod patrymau ymddygiad sy'n nodwedd sylweddol o dreisio a throseddau rhywiol eraill – ac y gall methu â rhoi gwerth a phwyslais priodol ar ddeall ymddygiad

troseddol a hanes yr un a ddrwgdybir, gan gynnwys adroddiadau blaenorol am droseddau, arwain at roi gormod o bwyslais ar hygrededd y dioddefwr. Fel yr ydym wedi'i weld yn y blynyddoedd diwethaf, mae seilio penderfyniadau ar hygrededd dioddefwr, yn hytrach nag fel rhan o asesiad gwrthrychol cyflawn o dystiolaeth, yn tanseilio'r gwaith o weinyddu cyfiawnder yn briodol, er anfantais i bob parti. Ein huchelgais yw:

- **y bydd yr heddlu'n symud tuag at fodel ymchwilio diofyn sy'n cydnabod pa mor gyffredin yw troseddu mynych mewn troseddau rhyw a threisio, ac yn sicrhau bod asesiad cynnar a chadarn o ymddygiad y sawl a amheuir a phatrymau troseddu. Bydd hyn yn sicrhau gwerth a phwyslais priodol ar ddeall ymddygiad troseddol a hanes yr un a ddrwgdybir o'r cychwyn cyntaf. Bydd yn helpu i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, yn hytrach na barn oddrychol ynghylch hygrededd dioddefwyr. Bydd y model newydd hwn yn adeiladu ac yn esblygu wrth i ragor o ddysgu ddod i'r amlwg o'r cynlluniau braenaru. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd ymchwiliadau'n parhau i fod yn rhwym i ymchwilio i drywydd ymchwiliad rhesymol ac i fodloni eu rhwymedigaethau datgelu.**

21. Mae'r Adolygiad wedi clywed profiad dioddefwyr o deimlo eu bod wedi cael eu 'chwilio'n ddigidol' ac mae llawer wedi cael eu gadael heb ffonau am fisoedd, gan eu gadael heb gefnogaeth hanfodol ar adeg o drawma enfawr. Ein huchelgais yw:

    - **na fydd unrhyw ddioddefwr yn cael ei adael heb ffôn am fwy na 24 awr, dan unrhyw amgylchiadau,** a'n blaenoriaeth yw bod dioddefwyr yn cael eu ffonau eu hunain yn ôl o fewn y cyfnod hwn, gyda ffonau cyfnewid yn cael eu darparu mewn lleiafrif o achosion;

    - **bod unrhyw ddeunydd digidol y gofynnir amdano gan ddioddefwyr wedi'i gyfyngu'n llwyr i'r hyn sy'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn caniatáu trywydd ymholi rhesymol i'r trosedd honedig; a**

    - **bod rhaid cyfathrebu'n effeithiol â dioddefwyr drwy unrhyw broses o gasglu tystiolaeth ddigidol.**

### Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwneud y canlynol:

22. Mae'r Adolygiad wedi clywed bod y gostyngiad yn nifer yr achosion lle cyhuddir rhywun yn ffurfiol wedi gwneud i lawer o ddioddefwyr deimlo diffyg hyder yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron. **Uchelgais Gwasanaeth Erlyn y Goron yw:**

    - **gwella'r ffordd yr ymdrinnir ag achosion o dreisio, cynyddu nifer yr erlyniadau ac adfer hyder dioddefwyr drwy gamau gweithredu, gan gynnwys proses well ar gyfer cyngor ymchwilio cynnar a diweddaru canllawiau cyfreithiol ar fynd i'r afael â mythau a stereoteipiau ynglŷn â threisio.**

### Beth fydd yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei wneud gyda'i gilydd:

23. Mae'r Adolygiad wedi clywed bod ymdeimlad dioddefwyr o fregusrwydd yn cael ei waethygu gan y dryswch y mae llawer o ddioddefwyr yn ei deimlo pan ofynnir iddynt ddefnyddio system gymhleth nad yw wedi'i chynllunio ar sail eu hanghenion. **Uchelgais yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yw:**

    - **sefydlu diwylliant o gydweithio effeithiol** fel y gallant gefnogi dioddefwyr yn well a pharatoi gwell achosion. Dylai hyn sbarduno mwy i bledio'n euog yn gynnar wrth i ddiffynyddion sylweddoli bod euogfarn yn debygol.

### Beth fydd yn digwydd yn y llysoedd?

24. Mae'r Adolygiad wedi clywed pa mor anodd a phoenus yw'r broses o roi tystiolaeth yn y llys i ddioddefwyr, a sut y gall ofn y broses honno eu hatal rhag dechrau prosesu eu trawma. Ein huchelgais yw:

    - **rheoli profiad i ddioddefwyr o fynd i'r llys gyda gofal ac ystyriaeth, heb beryglu'r egwyddor o dreial teg.** Bydd dioddefwyr yn gallu disgwyl **cyfathrebu clir a phrydlon** drwy gydol y broses a **bod mesurau arbennig ar gael sy'n diwallu eu hanghenion**.

    - dim ond tystiolaeth am y dioddefwr sy'n berthnasol i'r achos y dylid ei defnyddio yn y llys ac **ni ddylai hygrededd y dioddefwr gael ei danseilio gan ragdybiaethau a mythau am drais rhywiol.**

## Canlyniadau'r Adolygiad Treisio

25. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i gynllunio i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

    - *Cynnydd yn nifer* yr achosion sy'n mynd drwy'r system fel bod mwy o achosion yn cyrraedd y llys, a mwy o euogfarnau'n cael eu cyflwyno, gyda tharged cychwynnol o ddychwelyd i lefelau 2016.

    - Cynyddu'r *ymgysylltu â dioddefwyr* ar bob cam o'r broses.

    - *Nid yw achosion cymhleth i gael eu dadflaenoriaethu.* Byddwn yn monitro'r system ac yn olrhain canlyniad achosion i sicrhau na fydd achosion anos neu hanesyddol yn cael eu gollwng er mwyn cael mwy o achosion drwy'r system.

    - *Achosion o ansawdd uchel* yn cael eu cyfeirio gan yr heddlu at Wasanaeth Erlyn y Goron.

    - *Cynyddu hyder y cyhoedd mewn penderfyniadau o ansawdd uchel* a wneir gan y CPS ar sail y dystiolaeth a'r deunydd sydd ar gael ac a wneir mewn da bryd.

    - *Mwy o bledio'n euog yn gynnar.* Drwy wella ansawdd yr ymchwiliadau a'r broses yn gyffredinol, rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer sy'n pledio'n euog yn gynnar, fel nad oes rhaid i ddioddefwyr aros mor hir am ganlyniad yn eu hachos

ac o bosibl osgoi'r heriau o fynd i'r llys. Po gynharaf y cofnodir ple euog, y lleiaf yw'r trawma i ddioddefwyr o orfod rhoi tystiolaeth yn y treial.

- *Gwella prydlondeb achosion* ym mhob cam o'r broses cyfiawnder troseddol.
- *Cyfyngu ceisiadau am wybodaeth gan ddioddefwyr,* boed yn ddigidol neu wybodaeth a ddelir gan drydydd parti, i'r hyn sy'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn mynd ar drywydd ymholiadau rhesymol a lleihau'r amser y mae dioddefwyr heb ffôn er mwyn iddynt allu cadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau, eu teulu a'u gwasanaethau cymorth yn ystod cyfnod hynod drawmatig yn eu bywyd.
- *Cynnal hawl diffynnydd i dreial teg* drwy baratoi achos o safon, a thrwy ddatgelu cadarn a phriodol.

## Ein cynllun gweithredu

26. Mae ein cynllun gweithredu yn nodi rhaglen waith gadarn i'w chyflawni sy'n seiliedig ar yr ymchwil sylfaenol a gomisiynwyd ar gyfer yr Adolygiad a'r dystiolaeth a gasglwyd ar draws y system (yn cynnwys arolwg y Comisiynydd Dioddefwyr gyda dioddefwyr achosion o dreisio[23] ac ymatebion perthnasol i alwad ddiweddar y Swyddfa Gartref am dystiolaeth gyda golwg ar Drais yn erbyn Menywod a Merched[24], y Ganolfan ar gyfer Cyfiawnder Menywod, clymblaid End Violence Against Women (EVAW), Imkaan, a'r adroddiad a gynhyrchwyd gan Rape Crisis England & Wales, 'Decriminalisation of Rape: Why the justice system is failing rape survivors and what needs to change' a thystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad gan y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid).

27. Er bod camau eisoes yn cael eu cymryd, mae llawer mwy y mae angen i ni ei wneud. Rydym am weld cynnydd pendant o ran sicrhau gwelliannau ar draws y system, ac felly rydym yn gosod cerrig milltir clir ar gyfer yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni yn ystod y chwe mis, y 12 mis a'r 24 mis nesaf.

---

23 Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr, 2020

24 Mae 'Trais yn erbyn menywod a merched' yn derm cyffredinol sy'n ymdrin â throseddau sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched (e.e. treisio, troseddau rhywiol, cam-drin domestig, a stelcian)

## Canlyniadau'r Adolygiad Treisio

28. Nod y cynllun gweithredu yw cyflawni'r canlyniadau canlynol:

- *Mwy o achosion* yn symud drwy'r system fel bod mwy o achosion yn mynd i'r llys, a mwy o euogfarnau'n digwydd, gyda tharged cychwynnol o ddychwelyd at lefelau 2016.
- *Mwy o ymgysylltu â dioddefwyr* ym mhob cam o'r broses.
- *Dim di-flaenoriaethu achosion cymhleth.* Byddwn yn monitro'r system a thracio canlyniadau achosion i sicrhau nad yw achosion anoddach neu hanesyddol yn cael eu gollwng i gael mwy o achosion drwy'r system.
- *Achosion o ansawdd* i'w cyfeirio gan yr heddlu i'r CPS.
- *Gwella hyder y cyhoedd bod y CPS yn gwneud penderfyniadau o ansawdd*, ar sail y dystiolaeth a'r deunydd sydd ar gael, a hynny mewn da bryd.
- *Mwy'n pledio'n euog yn gynnar.* Drwy wella ansawdd yr ymchwiliadau a'r broses yn gyffredinol, byddwn yn disgwyl gweld mwy'n pledio'n euog yn gynnar fel nad oes raid i ddioddefwyr aros mor hir am ganlyniad i'w hachos, ac efallai hefyd yn osgoi'r her o orfod mynd i'r llys. Mwya'n byd sy'n pledio'n euog yn gynnar, lleia'n byd o drawma i ddioddefwyr drwy orfod rhoi tystiolaeth mewn treial.
- *Bod yn fwy amserol gydag achosion* ym mhob cam o'r broses cyfiawnder troseddol.
- *Cyfyngu ceisiadau i ddioddefwyr roi gwybodaeth*, p'un ai'n ddigidol neu gan drydydd partïon, i'r hyn sy'n angenrheidiol a chymesur er mwyn gallu dilyn pob trywydd ymholi rhesymol, a lleihau'r amser y mae dioddefwyr heb ffôn fel eu bod yn gallu aros mewn cysylltiad â ffrindiau, teulu a gwasanaethau cymorth ar adeg o drawma mawr yn eu bywydau.
- *Sicrhau bod hawl diffynnydd i dreial teg* yn cael ei gynnal drwy greu achos cryf, a datgelu priodol a chadarn.

## Ein cynllun gweithredu

29. Mae ein cynllun gweithredu'n cyflwyno rhaglen waith fanwl ar sail yr ymchwil gychwynnol a gomisiynwyd ar gyfer yr Adolygiad a'r dystiolaeth a gasglwyd ar draws y system (gan gynnwys drwy arolwg y Comisiynydd Dioddefwyr o ddioddefwyr treisio[25] a'r ymatebion perthnasol i Gais Tystiolaeth diweddar y Swyddfa Gartref o Drais Yn Erbyn Menywod a Merched[26], a chan Y Ganolfan Cyfiawnder i Fenywod, y glymblaid Atal Trais yn erbyn Menywod (EVAW), Imkaan, ac adroddiad *Rape Crisis* Cymru a Lloegr 'Decriminilisation of Rape: Why the justice system is failing rape survivors and what needs to change' a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad gan y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid).

30. Er bod gweithredu eisoes ar y gweill, mae llawer mwy sydd angen i ni ei wneud. Rydym eisiau gweld cynnydd gweladwy gyda gwelliannau ar draws y system ac rydym felly'n gosod cerrig milltir clir ar gyfer beth fydd yn cael ei ddarparu dros y 6, 12 a'r 24 mis nesaf.

---

25 Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr, 2020
26 Mae 'trais yn erbyn menywod a merched' yn derm ymbarél sy'n cynnwys troseddau sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched (e.e. treisio, troseddau rhyw, cam-drin domestig a stelcian)

**Fel Llywodraeth, ein huchelgais yw cyflwyno newid cynaliadwy ar fyrder sy’n cynyddu nifer a gwella ansawdd yr achosion sy’n mynd i’r llys**

| | **Gweithredu eisoes ar y gweill** | **Gweithredu yn y 6 mis cyntaf** | **Gweithredu mewn 6-12 mis** | **Gweithredu mewn 12-24 mis** |
|---|---|---|---|---|
| **Byddwn yn cyflwyno fframwaith sy’n dal pob rhan o’r system yn atebol am eu cyfraniad unigol at welliannau** | • Uchelgais gychwynnol i ddychwelyd nifer yr achosion treisio sy’n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu, eu cyhuddo ac yn mynd i’r llys, i’r hyn oeddent yn 2016, erbyn diwedd y Senedd<br>• Uchelgais erbyn diwedd y Senedd na fydd unrhyw ddioddefwr treisio heb ffôn am fwy na 24 awr<br>• Cadarnhau mai’r Gweinidog Troseddu a Phlismona yw’r Gweinidog fydd yn arwain ar weithredu’r Adolygiad Treisio<br>• Tasglu CJS misol newydd dan arweiniad Gweinidogol i sicrhau cydweithrediad effeithiol rhwng asiantaethau er mwyn gweithredu’r Adolygiad a gwella perfformiad | • Cyhoeddi’r diweddariad cynnydd cyntaf drwy gerdyn sgorio perfformiad i ddangos ein cynnydd gyda chyflawni pob uchelgais a cham gweithredu | • Cyhoeddi ail ddiweddariad cynnydd a phenderfynu a oes angen ymyrryd mwy, ar sail y cerdyn sgorio, i sicrhau bod newid yn digwydd | • Cyhoeddi diweddariadau cynnydd parhaus |

**Bydd gan bob dioddefwr treisio ac ymosodiad rhyw fynediad at gymorth da a phriodol i'r angen, pan fo'i angen arnynt. Mae hyn yn golygu sicrhau:**

| | **Gweithredu eisoes ar y gweill** | **Gweithredu yn y 6 mis cyntaf** | **Gweithredu mewn 6-12 mis** | **Gweithredu mewn 12-24 mis** |
|---|---|---|---|---|
| **Mae gan bob dioddefwr fynediad at y cymorth clinigol a therapiwtig iawn, a'r cymorth emosiynol ac ymarferol iawn, fel ISVA, lle bo'n briodol** | • Wedi buddsoddi £176m ychwanegol i gynyddu'r cymorth i ddioddefwyr treisio a cham-drin domestig | • Ymgynghori ar ddarparu gwasanaethau cymorth trais rhywiol yn y gymuned a rôl cynghorwyr ISVA, yn yr ymgynghoriad ar y Bil Dioddefwyr<br>• Datblygu safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer cynghorwyr ISVA<br>• Ymgynghori ar sut i wella'r cymorth a'r mynediad at gyngor cyfreithiol i ddioddefwyr treisio fel eu bod yn gallu deall a herio ceisiadau am wybodaeth ddigidol a thrydydd parti gan yr heddlu ac erlynwyr<br>• Cyhoeddi Strategaeth Ariannu Dioddefwyr yn disgrifio egwyddorion comisiynu a modelau ariannu cynaliadwy | • Targedu ymchwil gyda dioddefwyr treisio i ddeall eu profiadau'n well a beth y maen nhw ei eisiau gan wasanaethau cymorth er mwyn ateb yr angen yn y dyfodol | • Ail-gomisiynu'r Gronfa Gymorth Genedlaethol ar Dreisio a Cham-drin Rhywiol |
| **Nid yw mynediad dioddefwyr at gymorth yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw yn y wlad** | • Wedi cyhoeddi Canllawiau Comisiynu BAME ar gyfer dioddefwyr o leiafrifoedd | | • Rhoi mynediad 24/7 at gymorth i ddioddefwyr trais rhywiol | |

| | Gweithredu eisoes ar y gweill | Gweithredu yn y 6 mis cyntaf | Gweithredu mewn 6-12 mis | Gweithredu mewn 12-24 mis |
|---|---|---|---|---|
| **Mae dioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhyw’n gallu deall a derbyn gwybodaeth am eu hawliau’n hawdd Rhaid i asiantaethau cyfiawnder troseddol sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn yr hawliau hyn, a’u dal yn atebol os nad ydynt** | • Wedi cyhoeddi Cod Dioddefwyr diwygiedig yn disgrifio 12 o hawliau allweddol<br>• Wedi lansio’r ymgyrch #ItStillMatters i godi ymwybyddiaeth o’r mathau o gymorth cyfrinachol ac annibynnol sydd ar gael i ddioddefwyr ymosodiadau rhyw | • Ymgynghori ar sut i sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cynnal hawliau dioddefwyr (gan gynnwys y rhai yn y Cod Dioddefwyr), a’r canlyniadau os nad ydynt, yn yr ymgynghoriad ar y Bil Dioddefwyr<br>• Cyhoeddi canllawiau hawdd eu defnyddio i ddioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhyw<br>• Y CPS i lansio ‘taith ddigidol’ drwy’r system cyfiawnder troseddol i ddioddefwyr troseddau fel eu bod yn gwybod beth i’w ddisgwyl, gyda chynnwys arbenigol ar gyfer dioddefwyr treisio | • Yng ngham ymchwiliad yr heddlu, profi hawl newydd i ddioddefwyr treisio gael herio cwmpas ceisiadau am wybodaeth, gyda Thames Valley Police | |

## Beth fydd yr heddlu a’r CPS yn ei wneud i drawsnewid sut y maen nhw’n ymchwilio i, ac erlyn, achosion

| | Gweithredu eisoes ar y gweill | Gweithredu yn y 6 mis cyntaf | Gweithredu mewn 6-12 mis | Gweithredu mewn 12-24 mis |
|---|---|---|---|---|
| **Model ymchwilio diofyn sy’n cydnabod bod patrymau ymddygiad yn nodwedd glir o droseddau treisio a rhyw, ac yn sicrhau bod ymddygiad a phatrwm troseddu’r person dan amheuaeth yn cael eu hasesu’n gynnar a thrylwyr; penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na barn wrthrychol am ba mor gredadwy yw’r dioddefwr** | • Mae’r heddlu a’r CPS wedi lansio Safon Genedlaethol ar Baratoi Achosion, gan leihau achosion wedi eu labelu fel rhai ‘gweinyddol orffenedig’[27]<br>• Gwella’r broses Cyngor Ymchwilio Cynnar (EIA) i helpu’r heddlu a’r CPS i greu achosion gwell o’r dechrau | • Lansio prosiectau braenaru i brofi ffyrdd arloesol gan yr heddlu a’r CPS o ymchwilio i achosion treisio (Ymgyrch Soteria) | • Ehangu’r prosiectau braenaru (Ymgyrch Soteria) i heddluoedd mewn ardaloedd eraill<br>• Ehangu a chyflwyno dysgu a datblygu i’r heddlu a’r CPS ar gasglu tystiolaeth a chreu achosion, gyda’r person dan amheuaeth fel man cychwyn | • Defnyddio’r gwersi a ddysgir o’r prosiectau braenaru (Ymgyrch Soteria) i ddatblygu model gweithredu newydd |

27 Nid yw penderfyniadau gweinyddol orffenedig yn benderfyniadau cyfreithiol, ac efallai ddim yn ddiwedd ar yr achos. Gallai’r CPS ofyn i’r heddlu ddarparu gwybodaeth bellach os nad oes digon o wybodaeth i benderfynu ar gyhuddo rhywun, neu os yw’r heddlu’n gofyn am gyngor ymchwilio cynnar. Os nad yw’r heddlu’n ymateb o fewn tri mis, er eu hatgoffa i wneud hynny, mae’r achos yn cael ei gau. Gelwir hyn yn benderfyniad ‘gweinyddol orffenedig’. Os yw’r heddlu’n darparu mwy o dystiolaeth, mae’r achos yn cael ei ailagor, a lle bo’n bosib bydd penderfyniad ar gyhuddo’n cael ei wneud (CPS, 2019).


| | Gweithredu eisoes ar y gweill | Gweithredu yn y 6 mis cyntaf | Gweithredu mewn 6-12 mis | Gweithredu mewn 12-24 mis |
|---|---|---|---|---|
| **Newid diwylliant yn yr heddlu a'r CPS i sicrhau, fel uchelgais gychwynnol, bod nifer yr achosion treisio sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu, eu cyhuddo ac sy'n mynd i'r llys, yn dychwelyd at lefelau 2016, erbyn diwedd y Senedd** | • Wedi diweddaru canllawiau cyfreithiol y CPS i gynnwys mwy o arweiniad ar chwalu mythau a stereoteipiau treisio<br>• Wedi lansio cynllun gweithredu cenedlaethol ar-y-cyd yr heddlu a'r CPS | • Darparu dysgu a datblygu a chynyddu adnoddau i wella capasiti a gallu wrth ymchwilio i, ac erlyn, achosion treisio<br>• Cynyddu'r gwaith ar-y-cyd (rhithiol) effeithiol a wneir gan yr heddlu a'r CPS ar achosion treisio<br>• Cyhoeddi'r canllawiau diweddaraf ar sut i gynnal cyfweliadau Sicrhau'r Dystiolaeth Orau<br>• Yr heddlu a'r CPS i wella ansawdd eu cyfathrebu â dioddefwyr drwy ddogfennau ategol gwell a hyfforddiant gwell ar gyswllt â dioddefwyr<br>• Yr heddlu a'r CPS i gyflwyno safonau gofynnol ar gyfathrebu a chyswllt â chynghorwyr ISVA drwy Fframwaith Cenedlaethol | • Cyflwyno a gwreiddio canllawiau penderfyniadau ar-y-cyd i ymchwilwyr yr heddlu a'r CPS<br>• Adeiladu ar wersi dysgu a datblygu cyffredin i ennill dealltwriaeth traws-system ehangach o effaith trawma ar ddioddefwyr | |

| | Gweithredu eisoes ar y gweill | Gweithredu yn y 6 mis cyntaf | Gweithredu mewn 6-12 mis | Gweithredu mewn 12-24 mis |
|---|---|---|---|---|
| **Dim dioddefwr i fod heb ffôn am fwy na 24 awr ac uchelgais bod ffonau dioddefwyr i'w dychwelyd o fewn yr amser hwn, a ffonau eraill i'w darparu mewn nifer fach o achosion. Ni ofynnir i ddioddefwyr am wybodaeth oni bai fod hynny'n angenrheidiol a chymesur er mwyn gallu dilyn pob trywydd ymholi** | • Dyrannu £5m i gronfa genedlaethol i gynyddu capasiti heddluoedd i gasglu a rheoli tystiolaeth o ddyfeisiau digidol fel bod dioddefwyr yn cael eu ffonau'n ôl yn gynt<br>• Gweithredu Canllawiau Datblygu diwygiedig y Twrnai Cyffredinol a Chod Ymarfer y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol, gan gynnwys canllawiau ychwanegol ar ddiogelu data a phreifatrwydd<br>• Canllawiau'n cael eu monitro gan y Cyd-fwrdd Gwelliannau Gweithredol<br>• Wedi cyflwyno pŵer ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd sy'n rhoi sail gyfreithiol ar gyfer tynnu gwybodaeth allan o ddyfeisiau digidol, gyda rhagofalon preifatrwydd penodol i sicrhau y gofynnir am ffonau dim ond pan fo angen a lle bo'n gymesur | • Gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol i gynorthwyo ymdrechion i ddarparu ffonau 'ffeirio' i ddioddefwyr, gyda chymorth y Swyddfa Gartref<br>• Adnabod bylchau technoleg a gweithio gyda'r diwydiant i ganfod atebion i gyflymu a gwella ymchwiliadau, gan leihau unrhyw gamau ymwthiol diangen<br>• Gweithio gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) i safoni'r cwestiynau am ddatgelu a ofynnir i rai dan amheuaeth, i sicrhau eu bod yn gyson<br>• Cynnal uwchgynhadledd dechnoleg i gyflwyno gwelliannau technolegol i symud achosion treisio drwy'r system drwy ddefnyddio arbenigedd o'r diwydiant<br>• Cyhoeddi canllawiau Coleg Plismona diwygiedig ar dynnu data allan o ddyfeisiau symudol a diweddaru Hysbysiadau Prosesu Digidol ymhellach<br>• Dyblu nifer y plismyn sy'n derbyn hyfforddiant gallu digidol gan y Coleg Plismona gan sicrhau bod gan yr heddlu'r sgiliau, gwybodaeth a'r hyder angenrheidiol i gynnal ymchwiliadau digidol effeithiol o ansawdd da | • Datblygu ffyrdd o wella mynediad at ddeunydd trydydd parti a sicrhau bod ceisiadau'n gymesur<br>• Bod yn fwy cyson wrth gasglu data ar amserlenni a chynnydd achosion – a ddefnyddir wedyn i ddal pob rhan o'r broses cyfiawnder troseddol yn atebol<br>• Cyflwyno cod ymarfer statudol i roi canllawiau penodol i bobl awdurdodedig wrth holi dioddefwyr bregus, gan gynnwys hawl dioddefwyr i wrthod rhoi gwybodaeth | |

Yn y llysoedd, ein huchelgais yw bod y profiad anochel anodd i ddioddefwyr o fynd i'r llys yn cael ei reoli'n ofalus gan ystyried eu hanghenion a heb fynd yn groes i'r egwyddor o dreial teg.

| | Gweithredu eisoes ar y gweill | Gweithredu yn y 6 mis cyntaf | Gweithredu mewn 6-12 mis | Gweithredu mewn 12-24 mis |
|---|---|---|---|---|
| **Mae cyfathrebu ac ymgysylltu clir a phrydlon yn digwydd gyda dioddefwyr drwy gydol y broses, a mesurau arbennig ar gael i ateb anghenion dioddefwyr**0} | • Mae Adran 28 (a.28) o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, sy'n galluogi recordio holi ac ail-holi dioddefwyr ymlaen llaw, wedi'i chyflwyno i Lysoedd y Goron ar gyfer tystion bregus, ac yn cael ei pheilota ymhellach ar gyfer dioddefwyr a thystion wedi eu bygwth | • Ehangu'r peilot a.28 presennol i dystion wedi eu bygwth i ddioddefwyr a thystion wedi eu bygwth<br>• Profi a.28 yn y Llys Ieuenctid<br>• Datblygu fframwaith arferion gorau ar symud ymlaen gydag achosion treisio ac ymosodiadau rhyw yng ngham y llys, gan gynnwys ar gyfer mesurau arbennig<br>• Rhedeg Llys y Goron ar ei gapasiti mwyaf i gyflymu achosion sy'n cyrraedd y llys | • Treialu'r fframwaith arferion gorau mewn tair ardal | • Cyflwyno'r fframwaith arferion gorau i fwy o ardaloedd<br>• Ar ôl ei gwerthuso, cyflwyno a.28 i bob Llys y Goron ar gyfer dioddefwyr a thystion wedi eu bygwth |
| **Dim ond tystiolaeth am y dioddefwr sy'n berthnasol i'r achos i'w defnyddio yn y llys a hygrededd y dioddefwr i beidio â chael ei danseilio gan fythau neu ragdybiaethau am dreisio** | • Wedi gwahodd y farnwriaeth i ystyried canfyddiadau'r Adolygiad wrth ddiweddaru Compendiwm Llys y Goron | • Comisiwn y Gyfraith i adolygu'r ffordd yr ymdrinnir â mythau am dreisio fel rhan o broses y llys, a'r ffordd y defnyddir tystiolaeth am y dioddefwr | • Cyflwyno mesurau i fynd i'r afael ag agweddau cymdeithas a gwthio am newid ymddygiad hirdymor ynglŷn â thrais yn erbyn menywod a merched, drwy'r Strategaeth Trais Yn Erbyn Menywod a Merched | • Gweithredu canfyddiadau gwaith Comisiwn y Gyfraith<br>• Adolygu ac annog defnyddio cyfweliadau tystion cyn-treial, sy'n cynorthwyo penderfyniadau'r CPS a delio ag unrhyw anghysondeb yn gynt yn y broses |

# Cefndir a nodau'r Adolygiad ynghyd â rolau a chyfrifoldebau yn y system cyfiawnder troseddol wrth ddelio ag achosion troseddau rhyw a threisio




**Dalier sylw: Gall dioddefwr dynnu'n ôl o'r broses ar unrhyw adeg ond yn y mwyafrif llethol o achosion mae'n digwydd yn y cam cyn-gyhuddo. Mae gan yr holl bartneriaid gyfrifoldeb i'r dioddefwr drwy'r broses hon o dan y Cod Dioddefwyr.**

## Rôl y partneriaid gweithredol mewn symud achosion drwy'r system

31. Mae'r system cyfiawnder troseddol yn gasgliad o wasanaethau, asiantaethau a barnwriaeth annibynnol a phob un gyda gwahanol rôl a chyfrifoldebau, a gwahanol strwythurau arweinyddiaeth. Mae'r gwahanu pwerau rhwng pob rhan o'r system wedi'i ddyfeisio i sicrhau tegwch ond ni ddylen ni fod yn rhy anystyriol o gwbl o'r heriau gweithredol sy'n rhan annatod o yrru'r newid sylfaenol sydd mewn golwg gennym. Mae'n golygu gofyn i filoedd o blismyn unigol, erlynwyr a staff llys newid y ffordd y maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd, a gyda dioddefwyr. Mae gan bob rhan o'r system ran neilltuol i'w chwarae.

**Yr Heddlu:** Prif gyfrifoldeb yr heddlu yw ymchwilio i honiadau o dreisio a rhoi'r dystiolaeth ofynnol i'r CPS sydd yna'n gyfrifol am benderfynu cyhuddo'r person neu beidio. Mae gwaith yr heddlu'n cael ei oruchwylio gan y Swyddfa Gartref er bod yr heddlu'n weithredol annibynnol. Y Prif Gwnstabliaid sy'n atebol am ymarfer pwerau'r heddlu ac yn atebol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu am blismona, rheoli adnoddau a gwariant effeithiol ac effeithlon yr heddlu.

**Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS):** Y CPS sy'n penderfynu pa achosion a ddylai gael eu herlyn drwy ddefnyddio'r Prawf Cod Llawn, cyn cyhuddo. Nhw sy'n penderfynu pa gyhuddiad sy'n briodol mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth, sy'n cynghori'r heddlu yn nyddiau cynnar ymchwiliad ac sy'n paratoi achosion a chyfarwyddo cwnsleriaid i'w cyflwyno yn y llys. Mae'r CPS yn erlyn achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr, ar ran y wladwriaeth yn erbyn y diffynnydd. Y Twrnai Cyffredinol sy'n goruchwylio perfformiad y CPS er bod y CPS yn weithredol annibynnol.

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS):** Rôl yr HMCTS yw rhedeg system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithiol ac effeithlon, er mwyn gallu cynnal rheol y gyfraith a rhoi mynediad at gyfiawnder i bawb. Nhw hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyfleusterau perthnasol yn cael eu darparu er mwyn rhoi mesurau arbennig i ddioddefwyr, er enghraifft sgrîn fel nad yw'r diffynnydd yn gallu gweld y dioddefwr.

**Y Farnwriaeth:** Mae'r farnwriaeth annibynnol yn gyfrifol am sicrhau treial teg sy'n cynnwys rhestru achosion (h.y. penderfynu ym mha drefn y dylent ddod i'r llys ac amseriad gwahanol gamau achos llys); cynnal treial (gan gynnwys penderfynu pa dystiolaeth y gellir ei dderbyn neu beidio) a chyfarwyddo'r rheithgor yn eu penderfyniadau. Mater i'r rheithgor yw penderfynu a yw diffynnydd yn euog. Felly os yw'r rheithgor yn penderfynu bod diffynnydd yn euog, gorchwyl y barnwr yw dedfrydu. Drwy wneud hynny, bydd angen i'r barnwr ystyried y canllawiau ar ddedfrydu. Er nad oes gan yr MoJ unrhyw rôl mewn goruchwylio'r Farnwriaeth, mae'n gyd-gyfrifol am Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac am sicrhau bod y llysoedd yn gweithio'n effeithiol.

## Dull o weithio

32. I ddeall beth sydd wedi achosi'r lleihad yn nifer yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu a'u cyhuddo, a nifer fawr y dioddefwyr sy'n tynnu'n ôl, penderfynwyd gwneud ymchwil ansoddol ac ar sail arolwg i holi am brofiadau ac argraffiadau o'r heddlu, y CPS, gwasanaethau cymorth, bargyfreithwyr, barnwyr a chyfranogwyr ar yr ochr amddiffyn. Gwnaethom hyn i ddeall unrhyw newid sydd wedi digwydd mewn ymchwilio, cyhuddo ac erlyn achosion o dreisio ac ymosodiadau rhyw, i edrych ar yr heriau mewn ymchwilio i'r troseddau hyn ac i adnabod unrhyw beth oedd angen ei wella. Mae canfyddiadau'r ymchwil sylfaenol a wnaethom wedi cael eu hasesu ynghyd â thystiolaeth bellach a gasglwyd gan asiantaethau ar draws y system.

33. Er mwyn deall profiad y dioddefwr, rydym hefyd wedi defnyddio sawl darn pwysig o ymchwil gyda dioddefwyr i oleuo pa weithredu i'w gynnwys yn ein cynllun. O dan ein system gyfiawnder, nid yw'r dioddefwr yn 'barti' yn yr achos yr un fath â'r diffynnydd neu'r wladwriaeth (fel erlynydd). Fodd bynnag, maen nhw wrth graidd y broses wrth reswm. Bywydau'r dioddefwyr a effeithiwyd am byth gan y trosedd ac at y bobl hyn y mae gan y wladwriaeth gyfrifoldeb i gymryd y camau angenrheidiol i roi cyfiawnder iddynt. Mae eu tystiolaeth yn greiddiol i lwyddiant erlyniad o achos ac i ddiogelu'r cyhoedd rhag troseddu yn y dyfodol. Mae'n hanfodol ein bod yn deall yr effaith y mae'r trosedd, a'r broses cyfiawnder troseddol, wedi'i chael ar y dioddefwr a bod ein cynllun gweithredu wedi'i ddyfeisio ar sail anghenion y dioddefwr gan barchu'r egwyddor o dreial teg ar yr un pryd.

34. Yn ddiweddar, mae'r Comisiynydd Dioddefwyr wedi gwneud gwaith pwysig gyda bron i 500 o ddioddefwyr treisio i ddeall yn well beth yw eu profiadau o'r broses cyfiawnder troseddol, gan adnabod sawl maes lle gellir gwella.[28] Mae'r ymatebion i'r Cais diweddar am Dystiolaeth VAWG hefyd wedi dechrau rhoi dealltwriaeth well i ni o brofiadau dioddefwyr troseddau rhyw ac ym mhle yn y broses cyfiawnder troseddol y mae problemau'n codi. Rydym hefyd wedi edrych ar ganfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth a gomisiynwyd o ymchwil academaidd berthnasol, ymchwil gyhoeddedig gyda dioddefwyr, a hefyd ar adroddiad Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM (HMCPSI) 2019.[29]

35. Yn ogystal â'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd fel rhan o'r Adolygiad hwn, rydym hefyd wedi bod yn ymgysylltu ag arweinwyr ar draws y system cyfiawnder troseddol. Er mwyn goleuo'r gwaith hwn a holi barn rhai a wahoddwyd i gyfrannu adborth i'r broses o gasglu tystiolaeth, a datblygu'r gweithredu, rydym hefyd wedi sefydlu Is-Grŵp Troseddau Rhyw ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol. Sefydlwyd hefyd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr o fudiadau dioddefwyr a chyrff eraill ar draws y sector cymorth i ddioddefwyr trais rhywiol, i gynghori'r Adolygiad Treisio.

36. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi penodi Emily Hunt fel cynghorydd arbenigol i'r Adolygiad ac mae gan Emily brofiad byw ac wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod llais dioddefwyr wrth galon polisi'r Llywodraeth.

---

[28] Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr, 2020

[29] Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM (HMCPSI), 2019, Arolygiad Treisio 2019, Llundain

37. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos â phartneriaid gweithredol fydd yn chwarae rhan greiddiol mewn rhoi'r cynllun gweithredu ar waith. Mae'r cynllun gweithredu'n adeiladu ar y gwaith pwysig a ddechreuwyd eisoes gan bartneriaid gweithredol.[30] Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymrodd ran am eu cyfraniadau gwerthfawr a'u hymroddiad i wella ymateb y system i dreisio.

## Y cyd-destun ehangach

38. Dros gyfnod yr Adolygiad Treisio, mae effaith pandemig presennol Covid-19 wedi gwaethygu rhai o'r heriau presennol. Mae llawer llai o achosion o unrhyw fath yn cyrraedd y llys ac mae'r cyfyngiadau iechyd cyhoeddus a roddwyd yn eu lle i ymladd y pandemig wedi dwysáu'r heriau yn ymateb y system cyfiawnder troseddol i dreisio. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr achosion sydd heb eu gwrando yn Llys y Goron – bron i 57,000 erbyn hyn (49% yn fwy na'r ffigur sylfaenol cyn Covid-19).[31]

39. Er bod asiantaethau cyfiawnder troseddol a'r farnwriaeth yn rhoi blaenoriaeth i achosion difrifol, gan gynnwys treisio, i roi sicrhad i ddioddefwyr a diffynyddion, bydd lleihau'r llwyth achos anorffen hwn yn cymryd blynyddoedd. Mae'r problemau hyn yn arbennig o berthnasol mewn achosion troseddau rhyw sydd, yn rhannol oherwydd eu cymhlethdod, yn cymryd rhy hir i fynd i dreial yn barod. Rydym yn gweithio i sicrhau y bydd yr achosion hyn yn parhau i dderbyn blaenoriaeth gan bawb wrth ddelio ag effaith y pandemig.


40. Rydym yn cydnabod bod angen gwaith sylweddol i roi sylw i'r pethau sy'n sefyll yn ffordd rhoi cyfiawnder yn yr achosion hyn. Ein huchelgais yw arwain y system cyfiawnder troseddol i wneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd yr ymdrinnir ag achosion treisio.

---

30 Gan gynnwys strategaeth RASSO 2025 y CPS, yr arolygiad thematig ar-y-cyd rhwng HMICFRS a HMCPSI, a chynllun gweithredu cenedlaethol ar-y-cyd yr Heddlu a'r CPS.

31 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ystadegau chwarterol y Llysoedd Troseddol, Hydref – Rhagfyr 2020 (tablau), Achosion heb eu gwrando yn Llys y Goron, Chwarter 4 2020, o'i gymharu â Chwarter 4 2019.

# Beth fydd y Llywodraeth yn ei wneud



# Ein gweithredu i gyflawni ein canlyniadau

## I – Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno newid cynaliadwy ar fyrder ac yn gweithredu fframwaith sy'n dal pob rhan o'r system yn atebol am eu cyfraniad unigol at welliannau

41. Rydym yn cydnabod, er mwyn goresgyn yr heriau yn y system, bod angen gweithredu parhaus ar unwaith a bydd y camau a ddisgrifiwn yn y ddogfen hon ond yn dechrau'r gwaith hwn. Mae angen i ni ddangos atebolrwydd di-amddiffynnol am y gwaith yr ydym yn ei wneud, bod yn agored gyda'r cyhoedd am beth sydd a beth sydd ddim yn gweithio, a bod yn glir ar ba weithredu sydd ei angen i gyflwyno newid.

**Ein huchelgais gychwynnol yw dychwelyd nifer yr achosion treisio sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu, eu cyhuddo ac yn mynd i'r llys, i'r hyn oeddent yn 2016, erbyn diwedd y Senedd hon. Byddwn yn gwneud hyn drwy:**

- **cyflwyno fframwaith sy'n dal pob rhan o'r system yn atebol am eu cyfraniad unigol at welliannau, drwy Dasglu Gweinidogol;**
- **cyhoeddi adroddiadau cynnydd pob chwe mis ynghyd â chardiau sgorio i ddangos tryloywder ac atebolrwydd.**

### Canfyddiadau

42. Dangosodd ein hymchwil fod llawer o'r problemau yn y system cyfiawnder troseddol yn cael eu gwaethygu wrth i asiantaethau a sefydliadau weithio'n or-fewnol a pheidio â chyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd. Derbyniwn na fydd polisi bwriadus ar ei ben ei hun yn ddigon i gyflwyno'r newid sylweddol sydd mewn golwg gennym. Mae arweinyddiaeth gref a sefydliadau atebol, yn gweithio gyda'i gilydd, yn hanfodol i sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gweithredu a'u cynnal. Rydym eisiau dysgu o brofiadau'r gorffennol a sicrhau bod y cynllun gweithredu hwn yn arwain at newid diwylliant parhaol a gwelliannau cynaliadwy ar draws y system.

## Gweithredu

### *Cyflwyno fframwaith sy'n dal pob rhan o'r system yn atebol am eu cyfraniad unigol at welliannau*

43. **Mae'r Llywodraeth wedi cytuno, gyda'r heddlu a'r CPS, ar uchelgeisiau clir ar gyfer achosion treisio** y bydd y gweithredu yn y cynllun hwn yn helpu i'w cyflawni ac y gellir dal y Llywodraeth i gyfrif yn eu herbyn:
    - Uchelgais gychwynnol i ddychwelyd nifer yr achosion treisio sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu, eu cyhuddo ac yn mynd i'r llys, i'r hyn oeddent yn 2016; a
    - erbyn diwedd y Senedd sicrhau na fydd unrhyw ddioddefwr treisio heb ffôn am fwy na 24 awr.

44. I sicrhau atebolrwydd clir, **byddwn yn cyhoeddi diweddariad pob chwe mis ar ein cynnydd gyda chyflawni'r uchelgeisiau hyn, gyda chardiau sgorio perfformiad yn monitro cynnydd yn erbyn y metrigau allweddol, gan gynnwys amseroldeb, ansawdd ac ymgysylltu â dioddefwyr ym mhob rhan o'r system, a gyda rhoi'r cynllun gweithredu ar waith.** Byddwn yn ymgysylltu â grwpiau dioddefwyr a rhai sy'n darparu gwasanaeth yn uniongyrchol i ddioddefwyr, gan gynnwys cynghorwyr ISVA, ar beth ddylai'r cardiau sgorio adrodd arnynt, i sicrhau y gallwn wir ddeall beth sy'n digwydd ar y ddaear a bod newid clir yn digwydd sy'n weladwy i ddioddefwyr. Bydd monitro perfformiad hefyd yn golygu y gallwn dyrchu ar lefel ranbarthol a lleol i weld beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wella. Er bod yn rhaid i'n partneriaid gweithredol aros yn annibynnol, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd ar y gydymdrech hon i gyflwyno newid go iawn ac edrych yn feirniadol ar beth y mae'r data a'r dystiolaeth yn ei ddweud am effaith ein gweithredoedd. Mae'r gweithredu hwn yn newid sylfaenol mewn tryloywder ar draws y system cyfiawnder troseddol gan roi mwy o fanylder nag erioed o'r blaen i'r data sydd ar gael i'r cyhoedd ar achosion treisio.

45. Bydd **arweinyddiaeth weinidogol** ar y lefel uchaf yn hollbwysig i gyflawni'r canlyniadau sydd mewn golwg. Felly penodwyd y Gweinidog Troseddu a Phlismona fel y gweinidog fydd yn arwain ar weithredu'r Adolygiad Treisio. Mae'r Arglwydd Ganghellor, yr Ysgrifennydd Cartref, y Twrnai Cyffredinol a'r Prif Weinidog hefyd yn bwriadu chwarae rhan fanwl mewn gwella'r system.

46. **Bydd y Gweinidog Troseddu a Phlismona'n gwthio'r gweithredu drwy Dasglu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol** misol fydd yn sicrhau cydweithrediad agos rhwng yr holl arweinwyr allweddol ar draws y system cyfiawnder troseddol. Bydd y tasglu'n cael ei gynghori gan **grŵp arbenigol** wedi'i gadeirio gan y Gweinidog ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r system cyfiawnder troseddol a grwpiau dioddefwyr, y Comisiynydd Dioddefwyr a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, fydd yn gallu cyfrannu craffu allanol gwerthfawr, a chymorth, i roi ein gweithredu ar waith. Gyda'i gilydd bydd y fforymau hyn yn cynnal momentwm y newid hyd nes y bydd gennym system gyfiawnder a all hawlio'n hyderus ei bod yn darparu cymorth effeithiol i ddioddefwyr ynghyd â model ymchwilio sy'n edrych yn effeithiol ar ymddygiad a phatrwm troseddu person dan amheuaeth, a chynnal hawl y diffynnydd i gael treial teg.

47. Yn greiddiol, bwriadwn ddefnyddio'r **ymgynghoriad sydd i'w gynnal ar y Bil Dioddefwyr** i weld sut y gallwn sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cynnal hawliau dioddefwyr, gan gynnwys rhai yn y Cod Dioddefwyr, a'r canlyniadau os nad ydynt.


48. Mae ein partneriaid gweithredol yr un mor ymrwymedig i gyflwyno newid ystyrlon a bydd y cysylltiad rhwng uwch-arweinwyr gweithredol a Gweinidogion yn hanfodol. Er yn parchu annibyniaeth pob rhan o'r system, bydd ein partneriaid gweithredol yn rhan anhepgor i'r tasglu ac i weithredu uchelgeisiau'r Llywodraeth gan ddatblygu eu mesurau eu hunain i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth yn eu gwahanol sefydliadau. Mae'n cynnwys cyfres o fesurau yn y cynllun gweithredu cenedlaethol ar-y-cyd rhwng yr heddlu a'r CPS.

49. Gyda pheth o'r gwaith, mae angen newid diwylliant hirdymor ac ni fyddwn yn disgwyl i'r cynnydd ddigwydd mor gyflym ym mhob maes. Er hynny, byddwn yn parhau i fod yn ymrwymedig i dryloywder. Bydd cyhoeddi diweddariadau cynnydd a **chardiau sgorio**, yn dangos perfformiad y system yn erbyn metrigau allweddol, yn sicrhau y gall y cyhoedd ein dal yn atebol am y cynnydd.

50. Os na fydd y gweithredu yn y cynllun, ynghyd ag atebolrwydd, tryloywder ac arweinyddiaeth gryfach, yn ddigon i wella'r canlyniadau sydd mewn golwg yn yr Adolygiad hwn, byddwn yn ystyried cynigion pellach gan gynnwys diwygio'r ffordd y mae'r gwahanol bartneriaid gweithredol annibynnol yn cael eu dal yn atebol[32] am gyflawni gwelliannau gweithredol.

32 Gan barchu annibyniaeth ein partneriaid gweithredol i wneud eu penderfyniadau eu hunain

# Beth y byddwn yn ei wneud dros ddioddefwyr



## II – Gwella’r cymorth a roddir i ddioddefwyr ar draws y system cyfiawnder troseddol

51. Os na fydd dioddefwyr yn barod i adrodd eu digwyddiad treisio, ymgysylltu ac aros gyda’r broses o ymchwilio i, ac erlyn, y trosedd tan y diwedd, ni allwn gyrraedd ein nod o erlyn mwy o achosion treisio. Mae dioddefwyr sy’n adrodd yn ddewr - gan wneud hyn nid yn unig i roi cyfiawnder iddynt eu hunain, ond i helpu gweddill cymdeithas hefyd.


52. Rhaid i anghenion dioddefwyr fod wrth galon ymchwiliadau treisio er mwyn gallu dal, cyhuddo a chael treiswyr yn euog. Drwy roi cymorth emosiynol, ymarferol a hyd yn oed cyfreithiol i ddioddefwyr, byddwn yn ategu ein newidiadau trawsnewidiol ehangach i’r ffordd y mae’r system cyfiawnder troseddol yn delio â threisio drwy sicrhau y gall dioddefwyr ymgysylltu ac aros gyda’r broses.

**Ein huchelgais yw:**

- **Bydd gan bob dioddefwr treisio ac ymosodiad rhyw fynediad at gymorth da a phriodol i’r angen, pan fo’i angen arnynt. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gan bob dioddefwr fynediad at y cymorth clinigol a therapiwtig iawn, a’r cymorth emosiynol ac ymarferol iawn, fel ISVA, lle bo’n briodol.**
- **Ni fydd mynediad dioddefwyr at gymorth yn dibynnu ar ble y maen nhw’n byw yn y wlad.**
- **Dylai fod dioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhyw’n gallu deall a derbyn gwybodaeth am eu hawliau’n hawdd. Bod yn rhaid i asiantaethau cyfiawnder troseddol sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn yr hawliau hyn, a’u dal yn atebol os nad ydynt.**

53. Rydym eisoes wedi dechrau gweithio i weithredu’r weledigaeth hon. Mae diwygiadau eraill y byddwn yn eu gweithredu yn y misoedd nesaf. Ond er mwyn trawsnewid y cymorth i ddioddefwyr a chynnal eu hawliau, rhaid gwreiddio llawer o hyn mewn cyfraith. Bwriadwn ddefnyddio’r Bil Dioddefwyr arfaethedig fel offeryn i sicrhau newid sylfaenol.

### Canfyddiadau



54. Amcangyfrifir y bydd llai nag un o bob chwech sy’n dioddef treisio ac ymosodiad rhyw’n adrodd y troseddau i’r heddlu.[33] Mae llawer o resymau cymhleth am hyn; mae hyder yn y cymorth a roddir iddynt, ac yn y system cyfiawnder troseddol ei hun, yn ffactorau dylanwad mawr. Ers 2015 mae mwy o bobl yn adrodd treisio ac ymosodiadau rhyw gyda pha mor gyffredin yw’r troseddau hyn wedi aros

[33] ONS, Mawrth 2021, Natur ymosodiad rhyw drwy dreisio neu dreiddio rhywiol, Cymru a Lloegr: am y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2020. Mae troseddau rhyw a threisio’n aml yn cael eu tan-adrodd gan ddioddefwyr gyda llawer yn dewis peidio â datgelu’r troseddu i Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW), yr heddlu neu i unigolion neu fudiadau eraill.

tua'r un fath. Mae mwy o ddioddefwyr nag erioed yn gofyn am gymorth gan fudiadau gwirfoddol ac elusennol.[34] Fodd bynnag, yn erbyn y cefndir hwn, mae llawer mwy o ddioddefwyr sy'n adrodd treisio ac ymosodiadau rhyw'n dewis datgysylltu o'r system cyfiawnder troseddol nag yn 2015, gyda'r rhan fwyaf yn gwneud hyn cyn i benderfyniad ar gyhuddo gael ei wneud.[35] Mae hyn yn annerbyniol. Rhaid i ni wrthdroi'r duedd hon ar frys a sicrhau bod dioddefwyr sy'n ymwroli i ymgysylltu â'r broses cyfiawnder troseddol yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

55. Dengys y dystiolaeth fod derbyn cymorth cynnar a pharhaus yn hanfodol i sicrhau bod dioddefwyr treisio'n ymgysylltu, ac aros wedi ymgysylltu, â'r system cyfiawnder troseddol. O'r ymatebwyr oedd wedi adrodd treisio i'r heddlu, canfyddiad arolwg Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr oedd bod 20% o'r rhai a dderbyniodd ddim cymorth wedi tynnu'n ôl o'i gymharu â 9% a dderbyniodd gymorth gan Gynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA). Yn ôl ymchwil arall mae dioddefwr sy'n derbyn cymorth arbenigol, gan ISVA er enghraifft, 49% yn fwy tebygol o aros gyda'r broses.[36] Mae hyn yn gyson â'r ymchwil sylfaenol a wnaed gyda gwasanaethau cymorth fel rhan o adroddiad ymchwil yr Adolygiad Treisio, a gydag amcanion i gynnal ymgysylltu cyson rhwng yr heddlu a'r dioddefwr.[37]

56. Fodd bynnag, clywsom fod cymorth yn anghyson ar draws y wlad ac yn aml iawn nad yw wedi'i deilwrio i gwrdd ag anghenion dioddefwyr, ac nad oes digon ohono. Mae'n cael ei ddarparu gan gymysgedd o gomisiynwyr lleol a chenedlaethol sy'n creu darlun lleol a rhanbarthol cymhleth lle nad yw gwasanaethau'r GIG a'r trydydd sector bob amser yn gydgysylltiedig. Mae treisio hefyd yn effeithio mwy ar fenywod o gefndiroedd lleiafrifol, pobl anabl a phobl fregus na grwpiau eraill ac nid yw'r cymorth presennol yn ystyried hyn yn aml. O'r herwydd gall dioddefwyr deimlo'n ddigymorth a bregus iawn.

57. Hefyd yn ôl y dystiolaeth, mae sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cynnal hawliau allweddol yn hollbwysig i ymgysylltu effeithiol. Mae'r Cod Ymarfer Dioddefwyr[38] yn disgrifio hawliau troseddwyr troseddu yng Nghymru a Lloegr a dyletswydd asiantaethau cyfiawnder troseddol i'w cynnal. Fodd bynnag, mae effaith y Cod yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd diffyg gwybodaeth dioddefwyr ohono,[39] ac mae cydymffurfiad asiantaethau cyfiawnder troseddol â'r Cod hefyd yn gyfyngedig.

---

34 Rape Crisis, 2020, Rape Crisis Statistics

35 Y Swyddfa Gartref, 2020, Tablau data agored yr Heddlu ar droseddau a gofnodwyd, a'u canlyniadau, Wedi eu cyrchu ar 29.04.21

36 Lilley Walker, S., Hester, M., McPhee, D. a Patsos, D., 2019, Rape, inequality and the criminal justice response in England: The importance of age and gender. Criminology & Criminal Justice

37 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, 2021

38 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2020, Y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddu yng Nghymru a Lloegr (Cod Dioddefwyr)

39 Er enghraifft, yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr nid oedd 9 o bob 10 dioddefwr yn cofio derbyn unrhyw wybodaeth, cyngor na chymorth ar ôl y digwyddiad, Comisiynydd Dioddefwyr, 2020, Victims' Statistics 2020

## Gweithredu

***Sicrhau bod gan bob dioddefwr fynediad at y cymorth clinigol a therapiwtig iawn, a'r cymorth emosiynol ac ymarferol iawn, fel ISVA, lle bo'n briodol.***

58. Rydym eisoes wedi dechrau trawsnewid y cymorth a roddir i ddioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhyw. **Rydym wedi buddsoddi mwy nag erioed mewn cymorth i ddioddefwyr treisio dros y 18 mis diwethaf** drwy roi mwy o arian i'n Cronfa Gymorth Genedlaethol ar Dreisio a chlustnodi cyllid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, gan wario dros £70m ar wasanaethau treisio a cham-drin domestig yn 2020/21. Rydym wedi rhoi hwb cyllid sylweddol o £176m i wasanaethau treisio a cham-drin domestig yn 2021/22, gan gynnwys cronfa genedlaethol £27m newydd i recriwtio mwy o gynghorwyr ISVA ac IDVA a chyflwyno dyletswydd statudol newydd i awdurdodau lleol i sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael mynediad at gymorth mewn llety diogel.

59. **Byddwn yn ymgynghori ar ddarparu cymorth yn y gymuned i ddioddefwyr trais rhywiol yn yr ymgynghoriad sydd i'w gynnal ar y Bil Dioddefwyr** er mwyn trawsnewid y tirlun cymorth. Dylai darpariaethau'n nodi atebolrwydd clir am gomisiynu a gwasanaethau cymorth wella mynediad ac ansawdd y cymorth ac arwain at ganlyniadau gwell i ddioddefwyr. Mae angen triniaeth glinigol ar lawer o ddioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhyw'n ogystal â chymorth emosiynol ac ymarferol (mae sawl astudiaeth ymchwil wedi dangos bod dioddefwyr ymosodiadau rhyw'n debygol o ddioddef o anhwylder Straen Wedi Trawma). Byddwn yn gweithio'n agos â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, GIG Lloegr a Gwelliannau'r GIG i sicrhau bod diwygiadau i sefydlu Systemau Gofal Integredig statudol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr wedi eu cyplysu â mesurau yn yr ymgynghoriad ar y Bil Dioddefwyr i sicrhau y darperir gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr treisio mewn ffordd drawsnewidiol a holistig sy'n rhoi anghenion y dioddefwr gyntaf.

60. Bydd ein **Strategaeth Ariannu Dioddefwyr** arfaethedig yn ategu'r gwaith hwn gan ddisgrifio egwyddorion comisiynu a modelau ariannu cynaliadwy.

61. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar sail statudol i rôl y cynghorydd ISVA fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil Dioddefwyr. Bydd **fframwaith cenedlaethol o safonau, proffesiynoli a hyfforddiant** yn mynd law yn llaw â hyn. Tynnwyd sylw at y rôl bwysig y mae cynghorwyr ISVA yn ei chwarae yn y broses cyfiawnder troseddol yn Adolygiad Stern yn 2010. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ac a gyflwynwyd i'r Adolygiad Treisio wedi cadarnhau eu rôl hanfodol mewn cynorthwyo dioddefwyr i aros gyda'r broses. Clywsom yn gyson gan gynghorwyr ISVA nad yw'r gwasanaethau ehangach a'r llysoedd bob amser yn deall eu rôl yn iawn gan effeithio ar y cymorth y maen nhw'n gallu ei roi i ddioddefwyr. Bydd ein gwaith yn mynd i'r afael â hyn.

62. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn ein hymchwil sy'n gweithio i'r gwasanaethau cymorth a'r heddlu o'r farn mai un rheswm allweddol pam fod dioddefwyr yn tynnu'n ôl yw natur gynyddol ymwthiol yr ymchwiliadau. Byddwn yn gweithredu'n ddiymdroi i wella'r cymorth **i sicrhau bod dioddefwyr yn gallu deall yn well, a lle bo angen yn gallu herio pa mor gymesur yw ceisiadau am wybodaeth gan yr heddlu ac erlynwyr. Cyn yr ymgynghoriad ar y Bil Dioddefwyr, byddwn yn cynnal ymgynghoriad byr ar sut orau i wneud hyn.**

63. Bwriadwn dynnu'r cyfyngiadau yn y canllawiau presennol ar wybodaeth cynghorwyr ISVA am achosion penodol fel eu bod yn gallu cefnogi dioddefwyr yn well, gan gynnwys wrth gael eu holi gan yr heddlu, a helpu i adolygu a herio ceisiadau'r heddlu ac erlynwyr am wybodaeth os ydynt yn teimlo eu bod yn afresymol neu'n anghymesur.

64. **Byddwn hefyd yn trafod sut orau i gael gafael ar arbenigedd a chyngor cyfreithiol ar weld data a hawliau preifatrwydd, datgelu a deunydd trydydd parti.** Roedd y Cynllun Eiriolwyr dros Achwynwyr Trais Rhywiol a dreialwyd yn Northumbria rhwng Medi 2018 a Rhagfyr 2019 yn rhoi cyngor cyfreithiol am ddim i ddioddefwyr ar geisiadau am ddeunydd personol a / neu drydydd parti. Rydym eisiau dysgu o'r peilot hwn pan ddaw'n amser dylunio model gwell o ddarparu cymorth a mynediad at gyngor cyfreithiol, fydd efallai'n cael ei brofi ymhellach. Bydd Thames Valley Police hefyd yn profi hawl newydd i ddioddefwyr treisio gael herio cwmpas ceisiadau am wybodaeth, yng ngham ymchwiliadau'r heddlu.

65. Daw'r diwygiadau hyn at ei gilydd i oleuo **ail-gomisiynu'r Gronfa Gymorth Genedlaethol ar Dreisio yn 2022,** gan roi cyfle pwysig i ailddylunio sut y mae'r cymorth yn cael ei ddarparu a'i ariannu i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion pob dioddefwr yn y ffordd fwyaf effeithiol. Bwriadwn wneud gwaith **ymchwil targed â dioddefwyr treisio i ddeall eu profiadau'n well**, pa gymorth y maen nhw ei eisiau gan wasanaethau a sut orau y gallwn gwrdd ag anghenion rhai yr effeithiodd treisio'n anghymesur arnynt.

***Ni fydd mynediad dioddefwyr at gymorth yn dibynnu ar ble y maen nhw'n byw yn y wlad.***

66. Rydym wedi **gweithio gyda Comic Relief i ddarparu cronfa £2m yn 2021/22 i fudiadau arbenigol llai sy'n helpu dioddefwyr LGBT, anabl neu o leiafrifoedd ethnig** sydd, fe wyddom, yn cael trafferth neilltuol gyda chael mynediad at gymorth.

67. Ond gwyddom fod angen gwneud mwy i ddiwygio gwasanaethau cymorth er mwyn ateb y galw presennol, a'r cynnydd yn y galw, yn effeithiol a chefnogi dioddefwyr yn well.

68. Dylai dioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhyw fod yn gallu cael gafael yn hawdd ar un ffynhonnell gymorth, ar-lein neu dros y ffôn, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. **Drwy ymgynghori â dioddefwyr a rhai sy'n rhoi cymorth iddynt, byddwn yn comisiynu gwasanaeth cymorth sy'n rhoi mynediad hawdd at gymorth yn syth i ddioddefwyr treisio, pryd bynnag a ble bynnag y mae ei angen arnynt.**

***Dylai fod dioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhyw yn gallu deall a derbyn gwybodaeth am eu hawliau'n hawdd. Rhaid i asiantaethau cyfiawnder troseddol sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn yr hawliau hyn, a'u dal yn atebol os nad ydynt.***


69. Daeth **Cod Dioddefwyr newydd i rym ar 1 Ebrill** sy'n benllanw ar ddwy flynedd o waith helaeth, gan gynnwys ymgysylltu'n eang â grwpiau dioddefwyr a dioddefwyr i sicrhau bod gennym fframwaith clir a chynhwysfawr ar gyfer hawliau dioddefwyr. Mae asiantaethau cyfiawnder troseddol wedi dechrau ar y gwaith o wreiddio'r Cod newydd yn eu rhaglenni hyfforddiant ac wrth gyfathrebu â dioddefwyr. Dylai'r fframwaith hwn helpu i sicrhau bod dioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhyw'n derbyn eu hawliau, er enghraifft hawl i dderbyn gwybodaeth amserol am eu hachos, ac i

wneud Datganiad Personol Dioddefwr, oherwydd mae'r ddau beth yma'n rhagofalon pwysig rhag i ddioddefwyr dynnu'n ôl o'r broses.

70. Rydym hefyd yn **cyhoeddi canllawiau hawdd defnyddio i ddioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhyw** fel bod dioddefwyr yn deall yn well beth i'w ddisgwyl wrth i'w hachos symud drwy'r system cyfiawnder troseddol. I gyd-fynd â hyn mae'r CPS yn datblygu **'taith ddigidol' drwy'r system cyfiawnder troseddol i ddioddefwyr troseddau**, sy'n cynnwys gwybodaeth benodol ar gyfer dioddefwyr treisio.

71. I drawsnewid sut y mae hawliau dioddefwyr yn cael eu gweld a'u darparu, ac i wthio am newid diwylliant sylweddol, rhaid gweithredu'n radical. **Byddwn yn defnyddio'r Bil Dioddefwyr arfaethedig i warantu a sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn eu hawliau, gan ddal asiantaethau'n atebol am hyn.**

# Beth fydd yr heddlu a’r CPS yn ei wneud



## III - Beth fydd yr heddlu a'r CPS yn ei wneud i drawsnewid sut y maen nhw'n ymchwilio i, ac erlyn, achosion

**Ein huchelgais gychwynnol yw:**

- **Model ymchwilio newydd sy'n cydnabod bod patrymau ymddygiad yn nodwedd glir o droseddau treisio a rhyw, ac sy'n sicrhau bod ymddygiad a phatrymau troseddu person dan amheuaeth yn cael eu hasesu'n gynnar a thrylwyr; fel bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na barn wrthrychol am ba mor gredadwy yw'r dioddefwr**
- **Gweld newid ymarfer a newid diwylliant mwy hirdymor yn yr heddlu a'r CPS fel bod nifer yr achosion treisio sy'n cyrraedd y llys yn dychwelyd i'r hyn oeddent cyn 2016, gydag uchelgais gyfatebol bod yr heddlu'n atgyfeirio a'r CPS yn cyhuddo mwy o achosion**
- **Dim dioddefwr i fod heb ffôn am fwy na 24 awr gydag uchelgais bod ffonau dioddefwyr i'w dychwelyd o fewn yr amser hwn, a ffonau eraill i'w darparu mewn nifer fach o achosion, ac na ddylid gofyn i ddioddefwyr am wybodaeth oni bai fod y wybodaeth yn angenrheidiol a chymesur ar gyfer gallu dilyn pob trywydd ymholi rhesymol**

72. Mae'r Adolygiad wedi clywed bod dioddefwyr, yn rhy aml, yn teimlo mai nhw sy'n cael eu hymchwilio ac nad yw'r system yn eu credu. Mae EVAW a'r Ganolfan Gyfiawnder i Fenywod wedi rhannu 20 enghraifft gyda'r Adolygiad o fenywod a ddaeth atynt ar ôl adrodd treisio neu ymosodiad rhyw difrifol yn teimlo bod asiantaethau cyfiawnder troseddol wedi eu gadael i lawr yn ddrwg. Mae'r dystiolaeth yma'n cynnwys hanesion dioddefwyr a ddioddefodd ymosodiadau trawmatig, rhai'n cynnwys trais neu gaethiwo. Ym mhob un o'r astudiaethau achos hyn, aeth y menywod at yr heddlu am gyfiawnder ond cawsant wybod yn hytrach na fyddid yn mynd ymlaen â'u hachos. Yn aml iawn ni roddwyd rheswm o gwbl i ddechrau.

73. Er bod casglu tystiolaeth o dreisio'n gallu bod yn anodd yn aml, mae'r astudiaethau achos hyn (a'r enghreifftiau lu eraill y clywsom amdanynt) yn creu darlun o ddioddefwyr yn cael eu siomi i'r byw gan y broses gyfiawnder gan eu gofidio a'u dinistrio'n llwyr gan y penderfyniadau a wneir yn eu hachos. Er na chlywodd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr nad oedd eu hanesion yn gredadwy, gwnaed i lawer ohonynt deimlo na fyddai'r achos yn mynd yn ei flaen oherwydd bod eu gweithredoedd eu hunain wedi 'tanseilio eu hygrededd' (er enghraifft oherwydd eu bod wedi meddwi, yn noeth pan ddigwyddodd, na wnaethant brotestio neu adael y lle'n syth ar ôl y digwyddiad), neu oherwydd na allent gofio. Weithiau, roedd y penderfyniad yn dibynnu'n drwm ar dystiolaeth o iechyd meddwl neu adroddiadau ysgol y dioddefwr a awgrymai eu bod wedi ffugio pethau yn y gorffennol. Teimlai'r dioddefwyr hefyd fod eu hachosion wedi cael eu gollwng er bod tystiolaeth gadarn i gefnogi eu stori. Mewn rhai enghreifftiau, ni roddwyd unrhyw gyfiawnhad o gwbl dros ganlyniad eu hachos. Rydym yn ddiolchgar i EVAW a'r Ganolfan Gyfiawnder i Fenywod am rannu'r astudiaethau achos hyn â'r Adolygiad a dymunwn dalu teyrnged arbennig i'r dioddefwyr a fu'n barod i rannu eu profiadau eithriadol anodd â'r cyhoedd er mwyn goleuo a gwthio am welliannau. Rydym yn cydnabod pa mor drawmatig, ymwthiol,

dychrynllyd a chymaint o amser y gall ei gymryd i gynorthwyo ymchwiliad, ac erlyniad posib yn y pen draw, ac mae'n greiddiol nad yw achosion yn cael eu gollwng oherwydd methiant yr heddlu a'r CPS i ymchwilio a pharatoi achosion yn iawn.[40]


74. Roedd diffyg grym y dioddefwyr hefyd wedi'i waethygu gan y dryswch y mae llawer yn ei deimlo wrth wynebu system gymhleth na ddyluniwyd o gwmpas eu hanghenion, a phan ofynnwyd iddynt drosglwyddo eu ffonau, sy'n ffynhonnell gymorth mor bwysig. Mae gwreiddio newid mewn sut y mae'r heddlu a'r CPS yn ymchwilio i, ac erlyn, treisio'n hollbwysig os yw achosion treisio i'w trin yn effeithlon, teg a thosturiol. Hyd yma nid yw'r perfformiad wedi bod yn ddigon da ac mae'r ddwy asiantaeth yn cydnabod bod angen gwella.

75. Mae mesurau i wella perfformiad eisoes ar y gweill gan yr heddlu a'r CPS, gan gynnwys drwy sefydlu strwythur llywodraethu ffurfiol ar-y-cyd rhwng yr heddlu a'r CPS i oruchwylio cyflwyno **cynllun gweithredu cenedlaethol ar-y-cyd (JNAP)** ynghyd â Grŵp Llywio'n cynnwys uwch-swyddogion a swyddogion o'r heddlu a'r CPS. Mae'r mesurau sydd ar y gweill yn cynnwys gwaith i **gyfathrebu'n well â dioddefwyr, gwaith gyda Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) a grŵp i edrych ar wneud defnydd gwell o fesurau arbennig.** Ond nid da lle gellir gwell yn sicr yn yr achos hwn.

## Canfyddiadau

Ers 2015/16 gwelsom ddirywiad siarp yn nifer yr achosion sy'n cael eu cyhuddo a chynnydd yn nifer y dioddefwyr sy'n tynnu'n ôl o'r broses.

**Canlyniadau'r heddlu ar gyfer troseddau treisio oedolion, canlyniadau ar gyfer 2015-16 a 2019-20**




40 Astudiaethau achos a gasglwyd gan EVAW fel rhan o'u tystiolaeth ar gyfer Adolygiad Barnwrol ac a gyflwynwyd fel tystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad Hollgynhwysfawr o Dreisio

Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref, Tablau data agored yr heddlu ar droseddau a gofnodwyd, a'u canlyniadau, 2020

### *Pam fod angen newid diwylliant*

76. Mae perthynas dda rhwng yr heddlu a'r CPS yn hanfodol os yw achosion treisio i gael eu trin yn effeithlon a theg. Mae twf tystiolaeth ddigidol, llai o adnoddau a llwyth gwaith trymach i gyd wedi rhoi pwysau ar y ddwy asiantaeth gan roi straen ar y gweithlu. Roedd yr adborth gan gyfranogwyr o'r heddlu a'r CPS yn adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn dangos perthynas fwyfwy dan straen a thrafferthion **cyfathrebu** rhwng y ddwy asiantaeth oedd yn cael effaith negyddol ar gynnydd achosion a'r canlyniadau terfynol. Gwyddom hefyd fod y mwyafrif llethol o ddioddefwyr yn datgysylltu o'r system yn gynnar, ymhell cyn ystyried cyhuddo neu beidio. **Mae angen i'r diwylliant a'r ffyrdd o weithio yn y ddwy asiantaeth newid fel bod dioddefwyr yn barod i aros gyda'r broses cyfiawnder troseddol.**

77. Wrth i erlyniadau treisio blymio o flwyddyn i flwyddyn ers 2016/17, yn ddealladwy mae sylwadau a damcaniaethau wedi bod yn y wasg ac ymhlith rhanddeiliaid am y rhesymau pam, gyda rhanddeiliaid yn mynegi eu hargraff bod barn yr heddlu a'r CPS am gredoau rheithgorau mewn mythau a stereoteipiau treisio'n lliwio penderfyniadau ynghylch symud ymlaen gydag achosion neu beidio. Mae llawer iawn o ffocws wedi bod ar y rôl y gallai polisi cyhuddo'r CPS fod wedi'i chwarae ac a wnaeth newidiadau posib iddo gyfrannu at y gwymp mewn erlyniadau treisio ers 2016/17. Lleisiwyd pryderon hefyd am sioeau teithiol y CPS i erlynwyr ac a oedd rhywfaint o natur a chynnwys yr hyfforddiant hwn yn dystiolaeth o newid mewn dull neu bolisi. Arweiniodd y pryderon hyn at i'r glymblaid Atal Trais yn Erbyn Menywod (EVAW) ddod ag Adolygiad Barnwrol yn erbyn y CPS.

78. Roedd rhanddeiliaid yn bryderus bod y CPS wedi newid eu polisi ar erlyn treisio'n anghyfreithlon. Cafodd Adolygiad Barnwrol cychwynnol ei wrthod ond cytunodd y llys i wrando'r apêl gydag ymgyrch cyllido torfol yn denu hyd at 4,000 o roddion ariannol, llawer ohonynt yn nodi'n glir yn y negeseuon cymorth eu bod yn ddioddefwyr treisio a deimlai bod y system wedi eu gadael i lawr, gan ddangos cryfder y teimlad a'r pryder.

79. Bu'r llys yn gwrando ar dystiolaeth y cafwyd problemau'n flaenorol ag ansawdd achosion yn mynd i dreial, fel y nododd y Llys Apêl: "Yn 2016 roedd problemau gyda gwneud penderfyniadau mewn achosion RASSO. Roedd cyfran helaeth o achosion yn cael eu herlyn nad oedd yn bodloni'r prawf llawn o dan y Cod."[41] Wrth galon yr apêl oedd dadl EVAW fod gwneud i ffwrdd â'r canllawiau 'ar sail haeddiant' yn anghyfreithlon ac wedi achosi cwymp yn y gyfradd erlyn.

80. Fodd bynnag, dyfarnodd yr Adolygiad Barnwrol o blaid y CPS gan gasglu nad oedd y CPS yn mabwysiadu canllawiau oedd yn anghywir mewn cyfraith ac nad oedd newid ychwaith wedi bod i sylwedd y polisi blaenorol.

81. Nododd y dyfarniad bryderon dwfn EVAW am y nifer isel, sy'n gostwng o hyd, o erlyniadau ar gyfer troseddau treisio ac ymosodiadau rhyw o'i gymharu â nifer y troseddau honedig sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu. Mae diddordeb eang a chyfreithlon yn y cwestiwn sylfaenol a sbardunodd yr achos hwn, diddordeb y mae

---

[41] R (ar gais y Glymblaid Atal Trais yn Erbyn Menywod) v. Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, 2021

Cyfarwyddwyr Erlyniadau Cyhoeddus byth ers hynny, y gymuned gyfreithiol ehangach, y farnwriaeth a llawer mwy yn ei rannu".[42]

82. Ni wnaeth ein hadolygiad ganfod un rheswm penodol dros y gwymp mewn erlyniadau. Mewn arolygon a grwpiau ffocws ar gyfer yr Adolygiad Treisio a wnaed cyn y dyfarniad yn yr Adolygiad Barnwrol, roedd rhai rhanddeiliaid (gan gynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu a nifer fach o erlynwyr) wedi lleisio barn bod newidiadau i'r canllawiau'n awgrymu newid dull ac y gallai hyn fod wedi cyfrannu at leihad yn nifer a chyfran yr achosion a arweiniodd at gyhuddo. Mae'n glir o'r ymateb i'r Adolygiad Treisio bod yr argraffiadau hyn yn gwneud niwed i hyder pobl yn y system, felly hefyd y lleihad yn nifer yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu i'r CPS.[43]

83. Roedd cyfranogwyr yn yr ymchwil wedi adnabod sawl rheswm posib am y lleihad mewn atgyfeirio a chyhuddo. Mae **llai o gyd-leoli** rhwng yr heddlu a'r CPS yn y blynyddoedd diwethaf wedi effeithio ar y berthynas rhyngddynt. Cyfeiriwyd at ffactorau eraill fel llai o adnoddau, **prinder cenedlaethol o dditectifs,** mwy o drosiant staff, llwythi gwaith trymach wrth i bobl adrodd mwy o achosion treisio i'r heddlu, a defnyddio mwy o staff llai profiadol yn y CPS a'r heddlu. Yn ogystal â'i gwneud yn fwy tebygol na fydd achosion yn symud ymlaen drwy'r system, mae hyn oll yn cael effaith ganlyniadol ar brofiad dioddefwyr a'u hyder yn y system. **Mae'r CPS a'r heddlu'n cydnabod bod talcen caled o'u blaenau i adfer hyder pobl.**

### *Problemau gyda chasglu'r dystiolaeth orau a sicrhau'r gallu digidol cywir*

84. Mae dioddefwyr wedi sôn erioed am natur ymwthiol y broses o ddatgelu; fe wnaeth adroddiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar dynnu data allan o ffonau symudol yn 2020 nifer o argymhellion gwella allweddol ar hyn. Roedd yr adroddiad yn nodi, er yn derbyn bod yn rhaid i'r data a brosesir fod yn ddigonol er mwyn gallu dilyn pob trywydd ymholi rhesymol, bod gan y Comisiynydd bryderon mawr am brosesu data a allai fod yn ormodol.[44] Roedd adroddiad y HMCPSI yn 2019 yn nodi bod rhai erlynwyr yn dal i ofyn am gael lawrlwytho popeth o ffôn achwynydd neu berson dan amheuaeth. Mae'n glir nad yw'r heddlu a'r CPS wastad wedi gwneud digon i sicrhau bod y data a gasglwyd gan ddioddefwyr a rhai dan amheuaeth yn gymesur, a rhaid i hyn newid.

85. Dengys ein tystiolaeth fod y posibilrwydd bod efallai angen iddynt **drosglwyddo data personol a sensitif yn achosi pryder mawr** i lawer o ddioddefwyr ac yn un o'r prif resymau pam eu bod yn tynnu'n ôl o'r broses. Yn y blynyddoedd diwethaf mae peth wmbreth o ddeunydd digidol ar gael sy'n gwaethygu'r effaith ar ddioddefwyr a gwneud y broses yn fwy heriol i'r system. Dywedodd y cyfranogwyr yn ein hymchwil fod cynnydd wedi bod mewn ceisiadau am ddeunydd digidol a thrydydd parti gan wneud proses drallodus yn fwy **ymwthiol** fyth. Hefyd, mae dioddefwyr heb eu ffonau symudol am rhy hir gan felly orfod ildio offeryn cymorth pwysig ar adeg o drallod a theimlo'n hynod fregus.

---

42 R (ar gais y Glymblaid Atal Trais yn Erbyn Menywod) v. Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, 2021

43 Roedd adroddiad diwethaf yr HMCPSI hefyd wedi canfod bod y Cod wedi cael ei gymhwyso'n gywir mewn 98% o'r 250 o achosion a edrychodd arnynt, gan farnu bod angen gwaith pellach i wella sut yr ymdrinnir â'r achosion hyn ac yn enwedig o ran gwaith ar-y-cyd â'r heddlu. Argymhellodd arolygiad ar-y-cyd pellach, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, fydd hefyd yn edrych ar y broses benderfyniadau.

44 Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth *Adroddiad ar dynnu data allan o ffonau symudol,* 2020

86. Gall deunydd digidol a thrydydd parti ddarparu tystiolaeth hanfodol i gynorthwyo ymchwiliad ac erlyniad ac os yw'n dystiolaeth bydd yn cael ei rhoi i'r amddiffyniad fel rhan o'r broses ddatgelu. Fodd bynnag, rhaid i geisiadau am wybodaeth bersonol **fod yn angenrheidiol a chymesur** a chael eu gwneud ond er mwyn gallu dilyn pob trywydd ymholi rhesymol. Mae ein hymchwil wedi darganfod fod gwahaniaeth nodedig yn nealltwriaeth yr heddlu a'r CPS o'r gofynion a'r trothwyon ymchwilio sydd angen eu cwrdd ar gyfer ystyried y deunydd hwn fel gwybodaeth angenrheidiol i'r achos. Heb os mae hyn wedi arwain at ofyn i ddioddefwyr rannu mwy o wybodaeth na sydd angen.

## Gweithredu

***Model ymchwilio newydd sy'n cydnabod bod patrymau ymddygiad yn nodwedd glir o droseddau treisio a rhyw, ac sy'n sicrhau bod ymddygiad a phatrymau troseddu person dan amheuaeth yn cael eu hasesu'n gynnar a thrylwyr; fel bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na barn wrthrychol am ba mor gredadwy yw'r dioddefwr.***

87. Yn y 24 mis nesaf bydd gennym fframwaith ar gyfer model gweithredu newydd y gellir ei gyflwyno'n genedlaethol ar sut ddylai'r heddlu a'r CPS ddelio ag achosion treisio. Mae'r rhaglen fraenaru 'Ymgyrch Soteria' yn cael ei lansio i wthio am newidiadau systematig a chynaliadwy trawsnewidiol mewn sut y mae'r heddlu a'r CPS yn delio ag ymchwiliadau i droseddau treisio a rhyw. Bydd y gwaith braenaru hwn yn newid y ffocws i ganolbwyntio llawer mwy ar ymchwilio'n weithredol ac effeithiol i'r treisiwr honedig, deall y patrymau ymddygiad sy'n arwain at aildroseddu a tharfu ar ymddygiad troseddwyr, gan wella nid yn unig pob achos yn unigol ond cyfrannu at leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Bydd yr ymchwiliad felly'n rhoi llai o bwyslais ar ba mor gredadwy yw'r dioddefwr gan wneud ymchwiliadau'n fwy cytbwys a sicrhau, ar yr un pryd, bod pob trywydd ymholi rhesymol yn cael ei ddilyn. Yr ail agwedd allweddol fydd llawer mwy o graffu allanol. Lle bo'n bosib, bydd yn cynnwys bod paneli allanol yn gallu craffu ar benderfyniad i beidio â symud ymlaen ag achos.

88. Bydd y prosiectau'n cael eu darparu ar-y-cyd gan yr heddlu a'r CPS, gyda mewnbwn gan arbenigwyr academaidd, a'u hamcanion fydd:
- gwella sgiliau a hyder plismyn a swyddogion y CPS mewn delio ag achosion fel hyn;
- cynyddu nifer yr ymyriadau cynnar a nifer y troseddwyr sy'n derbyn sancsiwn;
- mwy o graffu ar benderfyniadau;
- goleuo safonau a fframwaith i broffesiynoli rôl plismyn, swyddogion a swyddogion cyfreithiol sy'n delio ag achosion yn genedlaethol;
- gwella ffydd dioddefwyr yn yr heddlu a'r CPS, yn enwedig ymhlith grwpiau sydd â llai o hyder (gan gynnwys dioddefwyr anabl, LGBT ac o leiafrifoedd ethnig); a
- gwneud y defnydd gorau o ddata ac ymarfer myfyriol i ennill dealltwriaeth well o'r troseddau a sicrhau'r canlyniadau gorau.

89. Mae dros £200,000 eisoes wedi'i roi i heddlu Avon a Somerset sydd wedi dechrau darparu'r gwaith hwn fel rhan o'r Prosiect Bluestone (wele'r astudiaeth achos). Dros y flwyddyn nesaf bydd prosiectau braenaru'r Ymgyrch Soteria'n adeiladu ar sylfeini Bluestone i ehangu i bedair ardal heddlu a CPS arall, gyda'r bwriad o gyflwyno model gweithredu radical newydd ar sail dysgu o'r prosiectau braenaru, dros y 24 mis nesaf.

90. Mae **safon genedlaethol ar baratoi achosion** rhwng yr heddlu a'r CPS eisoes wedi'i chytuno a'i gweithredu drwy 6ed Argraffiad y Canllawiau i Gyfarwyddwyr. Ei nod yw gwella ansawdd ffeiliau achos, lleihau achosion sy'n cael eu labelu fel rhai 'gweinyddol orffenedig'[45] a **gwella'r broses Cyngor Ymchwilio Cynnar (EIA)** i helpu'r heddlu a'r CPS greu achosion gwell o'r dechrau. Gyda'r canllawiau, bydd y safon newydd yn sicrhau bod ffurflenni pwysig sy'n gysylltiedig ag achosion yn cael eu llenwi'n briodol ac i'r safon uchaf.

***Newid diwylliant yn yr heddlu a'r CPS fel bod nifer yr achosion treisio sy'n cyrraedd y llys yn dychwelyd i'r hyn oeddent cyn 2016, gyda disgwyliad cyfatebol bod yr heddlu'n atgyfeirio a'r CPS yn cyhuddo mwy o achosion.***

91. Bydd gallu a chapasiti i ymchwilio i, ac erlyn, achosion treisio'n cael ei wella drwy **fwy o adnoddau a hyfforddiant.** Yn ogystal â'r cymorth a roddir gan yr 20,000 o blismyn ychwanegol sy'n cael eu recriwtio i'r heddlu, bydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu'n gweithio gyda phartneriaid i adolygu a gwella'r pecyn hyfforddiant i swyddogion, yn annog a monitro ei ddefnydd gan heddluoedd ac yn datblygu a chyflwyno hyfforddiant ar-y-cyd i'r heddlu a'r CPS ar wneud penderfyniadau, dull sy'n canolbwyntio gyntaf ar y person dan amheuaeth, dilyn pob trywydd ymholi rhesymol, ac effaith trawma ar ddioddefwyr. Bydd yr heddlu a'r CPS hefyd yn adeiladu ar hyfforddiant cyffredin fel bod canllawiau a deunydd hyfforddiant i wella dealltwriaeth o effaith trawma ar ddioddefwyr, a sut y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn ymateb y system cyfiawnder troseddol, yn ei le erbyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd hyn yn adeiladu ar waith sy'n digwydd eisoes, gan gynnwys hyfforddiant newydd i erlynwyr, a lansiwyd gan y CPS yn gynharach eleni, ar effaith niwrolegol trawma.

92. Mae'r CPS, yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, wedi diweddaru eu **canllawiau cyfreithiol ar dreisio** i gynnwys mwy o wybodaeth am **fythau a stereoteipiau treisio,** gydag erlynwyr yn cael eu hyfforddi ar y canllawiau diweddaraf i sicrhau nad ydynt yn effeithio'n niweidiol ar benderfyniadau. I roi eglurder i erlynwyr ar gymhwyso prawf y Cod, mae'r CPS wedi ymgorffori cynnwys ychwanegol, ar sail canllawiau blaenorol y dull 'ar sail haeddiant', yn eu Canllawiau Cyfreithiol diweddaraf ar RASSO. Mae'n nodi'n glir, er mwyn osgoi amheuaeth, nad yw'r CPS yn cymhwyso 'prawf hap-ddyfalu' na chaniatáu i fythau a stereoteipiau ddylanwadu ar benderfyniadau na gwerthuso tystiolaeth. Wrth ddiweddaru'r canllawiau cyfreithiol, mae'r CPS yn hyrwyddo cysondeb gyda chasglu tystiolaeth, fydd yn gwella dealltwriaeth o sut i ymdrin â heriau tystiolaeth gan sicrhau bod gan yr heddlu ac erlynwyr yr arfau dysg i wneud penderfyniadau cymwys a hyderus sy'n ymdrin ag unrhyw ragfarn, myth neu ragdybiaeth am dreisio. Fel rhan o'r cynllun gweithredu ar-y-cyd, mae'r CPS hefyd eisoes wedi ymrwymo i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer erlynwyr i sicrhau, gan ofalu dilyn pob trywydd ymholi rhesymol, mai'r person dan amheuaeth ac nid hygrededd y dioddefwr sydd wrth galon pob achos o dreisio.

93. Bydd hefyd **mwy o gydweithio (rhithiol) effeithiol** yn digwydd rhwng yr heddlu a'r CPS ar achosion treisio. Bydd hyn yn annog model ymarfer ar-y-cyd yn cynnwys y

[45] Nid yw penderfyniadau 'gweinyddol derfynol' yn benderfyniadau cyfreithiol, ac efallai ddim yn ddiwedd ar yr achos. Gallai'r CPS ofyn i'r heddlu ddarparu gwybodaeth bellach os nad oes digon o wybodaeth i benderfynu ar gyhuddo rhywun, neu os yw'r heddlu'n gofyn am gyngor ymchwilio cynnar. Os nad yw'r heddlu'n ymateb o fewn tri mis, er eu hatgoffa i wneud hynny, mae'r achos yn cael ei gau. Gelwir hyn yn benderfyniad 'gweinyddol orffenedig'. Os yw'r heddlu'n darparu mwy o dystiolaeth, mae'r achos yn cael ei ailagor, a lle bo'n bosib bydd penderfyniad ar gyhuddo'n cael ei wneud (CPS, 2019)

swyddog cyfrifol, yr uwch-blismon gwneud penderfyniadau ac erlynydd y CPS yn gweithio fel tîm i gyrchu at nod cyffredin. Mae gan rai heddluoedd ac ardaloedd CPS gymorthfeydd neu glinigau i roi cyngor a chael cyswllt rheolaidd, a bydd yr heddlu a'r CPS yn adeiladu ar hyn drwy redeg a gwerthuso cynlluniau peilot ar yr ymarfer ar-y-cyd hwn yn ne Llundain a de-ddwyrain a gogledd-ddwyrain Lloegr. Mae'r CPS yn glir, lle mae plismyn yn gofyn am gyngor ymchwilio cynnar, y dylai gael ei ddarparu gan y CPS mewn ffordd amserol a hygyrch. Erbyn diwedd 2021, bwriedir adolygu pa mor effeithiol fydd hyn cyn cyhoeddi canllawiau ymarfer gorau. Bydd yr heddlu a'r CPS hefyd yn gweithio gyda'i gilydd i gyfathrebu'n well â dioddefwyr, gan ddarparu dogfennau ategol gwell a hyfforddiant gwell ar gyswllt â dioddefwyr.

94. Defnyddir data ar amserlenni a chynnydd achosion gan Dasglu'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, wedi'i gadeirio gan y Gweinidog Troseddu a Phlismona, i ddal pob elfen o'r broses cyfiawnder troseddol yn atebol. I wneud hyn mor effeithiol â phosib, dros y 12 mis nesaf byddwn yn gwneud y **data fydd yn cael ei gasglu gan yr heddlu, y CPS a'r llysoedd yn fwy cyson** gan roi ffocws ar adnabod pa rannau o'r system sydd angen gwella ymhellach.

95. Mae cynnal **cyfweliadau Tystiolaeth Orau'n** rhan allweddol o'r broses ymchwilio pan ofynnir i'r dioddefwr neu'r tyst fynd drwy eu hanes am beth a ddigwyddodd mewn manylder. Mae'r cyfweliadau hyn yn aml yn chwarae rhan greiddiol yn y dystiolaeth a ddefnyddir mewn treial ac felly byddwn yn gweithio a'n partneriaid i gyhoeddi'r canllawiau diweddaraf ar sicrhau cysondeb ac ansawdd y cyfweliadau hyn.

***Dim dioddefwr i fod heb ffôn am fwy na 24 awr ac uchelgais bod ffonau dioddefwyr i'w dychwelyd o fewn yr amser hwn, a ffonau eraill i'w darparu mewn nifer fach o achosion, ac na ddylid gofyn i ddioddefwyr am wybodaeth oni bai fod y wybodaeth yn angenrheidiol a chymesur er mwyn gallu dilyn trywydd ymholi rhesymol.***

96. Mae angen trin y broses o ymchwilio i, ac erlyn, achosion treisio'n ystyrlon er mwyn parchu hawl y dioddefwr i breifatrwydd gan hefyd sicrhau'r dystiolaeth er mwyn cael treial teg. Rhaid i'r egwyddor o brosesu angenrheidiol a chymesur fod wrth ganol y broses ymchwilio a rhaid rhoi cymorth i ddioddefwyr i'w helpu i ddeall sut y gallai gwybodaeth gael ei defnyddio mewn ymchwiliad ac achos llys. Fodd bynnag mae'n annerbyniol bod yn rhaid i ddioddefwyr drosglwyddo eu ffôn am wythnosau, misoedd ac – yn yr achos gwaethaf – am flynyddoedd. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar sut i wella mynediad i ddioddefwyr at gynghorwyr ISVA, byddwn yn ystyried eu rôl mewn helpu dioddefwyr i ddeall ceisiadau am wybodaeth a sicrhau eu bod yn gallu herio ceisiadau diangen neu anghymesur yn effeithiol.

97. Byddwn yn sicrhau na fydd unrhyw ddioddefwr wedi eu gadael heb ffôn am fwy na 24 awr. Ein huchelgais yw bod ffonau dioddefwyr yn cael eu dychwelyd o fewn yr amser hwn, a ffonau eraill i'w darparu mewn nifer fach o achosion. Byddwn yn dyrannu **£5m i gronfa genedlaethol i gyflymu'r twf yng nghapasiti heddluoedd i gasglu a rheoli tystiolaeth o ddyfeisiau digidol.** Byddwn yn gofyn i heddluoedd gyfrannu arian cyfatebol eu hunain tuag at unrhyw gyllid a dderbynnir ar gyfer cyfarpar fforensig digidol. Byddwn hefyd yn y dyfodol yn buddsoddi mewn profi a chyflwyno technoleg newydd i brosesu achosion yn gynt ac mewn dulliau 'tynnu data' dethol er mwyn tynnu cyn lleied o wybodaeth â phosib allan o ffonau dioddefwyr. Bydd y cyllid newydd hwn yn cynyddu'r cyfarpar fforensig digidol sydd ar gael i heddluoedd er mwyn gallu prosesu hyd at 10,000 o ddyfeisiau ychwanegol mor fuan â phosib mewn

ymchwiliad a byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i wella mynediad at ffonau eraill i'w cynnig i ddioddefwyr.

98. Nid yw technoleg ar ei phen ei hun yn ddigon felly byddwn hefyd yn gweithio gyda heddluoedd i sicrhau bod ganddynt staff gyda'r sgiliau iawn, a'r prosesau iawn, i wneud y defnydd gorau o'r dechnoleg. Rydym yn cynyddu nifer y plismyn sy'n derbyn hyfforddiant gallu digidol gan y Coleg Plismona, ac mae'r Swyddfa Gartref wedi ysgrifennu at heddluoedd yn nodi disgwyliadau clir, gan fwriadu parhau i fonitro hyn.

99. Fodd bynnag, rydym eisiau trawsnewid sut y mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal o'r dechrau i'r diwedd. Felly bwriadwn harneisio'r dulliau arloesol a ddefnyddir eisoes gan heddluoedd, fel yr unedau fforensig symudol, yn profi technoleg newydd drwy gynlluniau peilot eleni, ac yn darparu'r cymorth canolog angenrheidiol i'w cyflwyno ar raddfa genedlaethol. Bwriadwn wneud hyn drwy weithio â phartneriaid yn y diwydiant ac ar draws y CJS, gan gynnwys drwy gynnal uwch-gynhadledd dechnoleg dan arweiniad y Gweinidog, er mwyn diogelu ein gallu fforensig digidol at y dyfodol i wasanaethu'r cyhoedd yn well.

100. Bydd y camau gweithredu hyn yn ategu **ein hymrwymiad i leihau faint o amser y mae dioddefwyr heb ffôn i 24 awr erbyn diwedd y Senedd hon.**

101. Os oes angen cymryd ffôn dioddefwr oddi arnynt, dylid rhoi ffôn arall iddynt fel nad ydynt yn cael eu torri i ffwrdd o gymorth, a **bydd yr heddlu gyda chymorth y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol ar ymdrechion i 'ffeirio' ffonau.** Rhaid sicrhau bod dioddefwyr yn teimlo bod y system cyfiawnder troseddol yn eu cefnogi, a bod ymchwilwyr ac erlynwyr hefyd yn gallu cyflawni eu dyletswyddau datgelu. Mae'n gydbwysedd anodd ei daro ond mae'n hollol iawn i ni flaenoriaethu hyn a sicrhau bod goroeswyr yn teimlo eu bod yn gallu adrodd treisio.

102. Mae **Canllawiau diwygiedig y Twrnai Cyffredinol ar Ddatgelu**, a ddaeth i rym yn Rhagfyr 2020, yn ymgorffori egwyddorion adroddiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghyd â 'Pedair Egwyddor' y Llys Apêl ar adolygu cyfathrebiadau digidol yn *R v Carl Bater James.* Mae'r rhain yn hyrwyddo asesiadau cymesur a phwrpasol o ddatgelu drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol. Mae Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol wedi ymrwymo i gynnal **adolygiad blynyddol o'r Canllawiau ar Ddatgelu** i sicrhau eu bod yn cael yr effaith sydd mewn golwg ac yn adlewyrchu ac aros yn ddiweddar i'r oes fodern. Wrth gwrs, mae'n hanfodol nid yn unig bod gan ymchwilwyr ac erlynwyr y Canllawiau diweddaraf ond eu bod hefyd yn gweithredu mesurau i wella'r diwylliant ar ddatgelu.

103. Cymerwyd camau'n barod i wneud hyn. Er enghraifft, ers mis Medi 2020, mae'r heddlu wedi disodli eu ffurflen ganiatâd lawrlwytho digidol i ddioddefwyr a thystion gyda **Hysbysiad Prosesu Digidol newydd** i hyrwyddo cysondeb rhwng heddluoedd wrth gasglu tystiolaeth ddigidol. Mae hyn yn greiddiol i sicrhau bod achosion yn cael eu trin yn gyson, ble bynnag y maen nhw'n cael eu hymchwilio. Mae datgelu a gallu digidol hefyd yn un o brif themâu'r cynllun gweithredu ar-y-cyd ar dreisio rhwng yr heddlu a'r CPS, sy'n rhoi ffocws ar hyfforddiant i gynorthwyo ymchwilwyr ac erlynwyr i gydbwyso anghenion ymchwiliad â'r hawl i breifatrwydd.

104. Cam arall yw cyflwyno pŵer ym **Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd** i ddarparu sail gyfreithiol glir ar gyfer tynnu gwybodaeth allan o ddyfeisiau digidol.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cyflwyno **rhagofalon preifatrwydd** yn nodi'n glir y dylid ond gofyn i ddioddefwyr drosglwyddo eu ffonau pan fo hynny'n angenrheidiol a chymesur i'r ymchwiliad. Bydd yn cael ei chefnogi gan Gôd Ymarfer statudol yn rhoi arweiniad ymarferol i'r heddlu (ac eraill) ar weithio gyda dioddefwyr bregus, er enghraifft dioddefwyr treisio a thrais rhywiol, wrth dynnu gwybodaeth allan o'u dyfeisiau digidol. Bydd y Cod yn atgyfnerthu bod angen Hysbysiad Prosesu Digidol i sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwybod pam fod angen eu dyfais, gan gynnwys y trywydd ymholi rhesymol sydd angen ei ddilyn, a'u bod yn deall sut y defnyddir eu gwybodaeth, cyn gofyn iddynt gytuno. Bydd hyn yn sicrhau bod dioddefwyr yn gwbl hysbys o'u hawliau, gan gynnwys yr hawl i wrthod. Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu i sicrhau bod swyddogion yn deall a dilyn yr un cod ymarfer er mwyn rhoi eglurder a chysondeb sydd taer ei angen i'r broses, ac y gofynnir am ddyfeisiau symudol dim ond wrth ddilyn trywydd ymholi rhesymol ac nid fel mater o drefn.

**Astudiaeth achos – mae technegau ymchwilio arloesol a chymorth pwrpasol i'r dioddefwr eisoes yn dwyn ffrwyth**

Mae gwaith arloesol yn cael ei wneud gan Heddlu Avon a Somerset drwy'r Prosiect Bluestone i edrych ar ba welliannau y gellir eu gwneud wrth ymchwilio i achosion treisio ac ymosodiadau rhyw difrifol. Mae plismyn proffesiynol ac academyddion yn gweithio gyda'i gilydd i chwilio am atebion i'r gwymp mewn erlyn treisio ac ymosodiadau rhyw drwy brofi dulliau ymarfer newydd. Ochr yn ochr â chraffu gwell a meddwl am ddulliau newydd, mae'r gwaith hwn yn rhoi ffocws cryf ar brofiadau dioddefwyr gan ystyried sut i wella'r broses ddatgelu, gan gynnwys drwy rôl technoleg.

Yn ôl Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Avon a Somerset, Sarah Crew: "Mae astudiaethau blaenorol wedi nodi bod angen gwella ond mae'r atebion yn aml wedi ymwneud â dadansoddi gwybodaeth heb ateb y problemau ehangach a wynebwn. Bydd yr astudiaeth yn gyfle i ni gynhyrchu dulliau a phrosesau penodol, ymarferol a seiliedig ar dystiolaeth y gall unrhyw heddlu eu mabwysiadu ac a fydd yn cael effaith fesuradwy ar y ffordd y deliwn ag ymchwiliadau treisio. Mae'n gyfle i ni gyflwyno newid gwirioneddol a chynaliadwy gan roi profiad y dioddefwr, a'u lles, wrth galon popeth a wnawn."

***Llwyddiannau allweddol o'r prosiect:***

- Creu'r proffil diweddaraf o'r broblem i edrych ar y broses o'r dechrau i'r diwedd. Mae hyn wedi helpu i oleuo strategaeth glir ar gyfer atal, ymchwilio a tharfu ar droseddau ymosodiadau rhyw.
- Datblygu adnoddau i gynorthwyo pwyntiau penderfynu gan sicrhau strategaethau ymchwilio gwell.
- Sefydlu panel profiadau byw'n cynnwys goroeswyr sydd wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â'r prosiect, wedi'i hwyluso gan wasanaeth ISVA i sicrhau bod profiadau dioddefwyr yn cael eu clywed.
- Ymgysylltu'n weithredol â'r gwasanaeth ISVA lleol, gan sefydlu protocol a ffyrdd newydd o weithio i gynorthwyo ymchwiliadau gwell.
- Rhoi adborth 'amser byw' i oruchwylwyr gweithredol, sydd wedi dechrau newid y diwylliant ar ymwybyddiaeth o'r broblem a'r newidiadau sydd eu hangen.
- Yn barod mae mwy o ddefnydd o Gyngor Cynnar gan y CPS i'r heddlu. Yn y chwarter diwethaf (20/21) mae nifer y ceisiadau am Gyngor Cynnar wedi treblu o'i gymharu â hanner cyntaf 20/21.
- Mae'r ffocws ar droseddau ymosodiadau rhyw wedi ysgogi perthynas weithio agosach â'r CPS, drwy gynnal adolygiadau gwella ymarfer a chynadleddau ar-y-cyd.

**Gweithredu dull un tîm erlyn wrth i'r CPS a'r heddlu weithio gyda'i gilydd yn gynt ac yn agosach, gan sicrhau y gellir creu a symud ymlaen ag achosion yn fwy effeithlon a thrylwyr**

Mae defnyddio Cyngor Ymchwilio Cynnar yn annog perthynas gydweithredol rhwng yr heddlu a'r CPS sy'n helpu i greu achosion cryfach sy'n gallu symud yn fwy effeithlon drwy'r system. Dylai hyn sicrhau y gofynnir am ddeunydd – gan gynnwys gwybodaeth bersonol dioddefwyr – dim ond lle bo hynny'n angenrheidiol, rhesymol a chymesur. Yn eu tro gall y manteision hyn arwain at ganlyniadau mwy positif i ddioddefwyr.

Mae'r CPS yn gwneud amrywiaeth o waith mewn sawl ardal i adnabod a hyrwyddo'r arferion gorau ar gyngor ymchwilio cynnar, yn ogystal ag ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys:

- Datblygu Memorandwm Dealltwriaeth rhwng yr heddlu a'r CPS i sicrhau dull cyson a rhagweithiol wrth ofyn am gyngor cynnar, sydd i gael ei lansio ochr yn ochr â hyfforddiant ar-y-cyd i'r heddlu ac erlynwyr ar ddefnyddio cyngor cynnar.
- Roedd peilot yn ne-ddwyrain Lloegr, a lansiwyd yn Nhachwedd 2020, yn canolbwyntio ar ba mor amserol yw cyngor ymchwilio cynnar mewn achosion treisio. Mae'n cynnwys terfyn amser llym o 42 diwrnod o ddyddiad y cwyn i roi cyngor cynnar, yn ogystal â chlinigau cynnydd achosion misol, cyn cyhuddo, gyda heddluoedd.
- Gwaith yn ne-orllewin Lloegr i hyrwyddo parodrwydd CPS yr ardal i roi cyngor cynnar, gan wahodd yr heddlu i ofyn am gyngor ymchwilio cynnar ym mhob achos treisio ac ymosodiad rhyw difrifol.
- Gwaith yn Wessex i bwysleisio bod disgwyl i gyngor cynnar gael ei roi ym mhob achos treisio ac ymosodiad rhyw difrifol, gan gynnwys Cynllun Gweithredu ar draws tri heddlu lle mae'r heddluoedd wedi cytuno i gyflwyno achosion treisio i'r CPS am gyngor cynnar o fewn tri mis i ddyddiad y cwyn.
- Cymorthfeydd cyngor cynnar sy'n cael eu cynnal mewn gorsafoedd heddlu mewn nifer o ardaloedd CPS, gan gynnwys de Llundain.

***Gwelliannau allweddol ar gyfer achosion treisio ac ymosodiadau rhyw***

Mae'r gwaith o werthuso'r holl ddarnau hyn o waith yn parhau ond mae pob un wedi dangos arwyddion cynnar o lwyddiant.

- Yn ne-ddwyrain Lloegr, cafwyd cynnydd o 47% mewn achosion wedi eu hatgyfeirio gan yr heddlu.
- Yn ne-orllewin Lloegr, cafwyd gwelliant o 211% mewn gofyn am gyngor cynnar.
- Yn Wessex, cafwyd cynnydd o 145% mewn achosion wedi eu hatgyfeirio gan yr heddlu.
- Yn ne Llundain, cafwyd cynnydd o 94% mewn achosion wedi eu hatgyfeirio gan yr heddlu.

Mae'r newidiadau hyn yn dangos cynnydd clir yn nifer yr achosion sy'n symud drwy'r system. Er na fydd pob un efallai'n mynd i'r llys, mae cyngor cynnar yn gwneud eu llwybr drwy'r system yn fwy tebygol ac yn gallu helpu i greu achos cryfach sydd efallai'n fwy tebygol o arwain at bledio'n euog yn gynnar. Bydd ceisio canfod yr ymarfer gorau ar gyngor cynnar, ac mewn meysydd eraill, yn parhau ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, a hefyd yn dod yn rhan o Ymgyrch Soteria fel un o'r prosiectau braenaru allweddol.

# Beth fydd yn digwydd yn y llys



## IV – Beth fydd yn digwydd yn y llys i sicrhau bod y profiad anochel anodd i ddioddefwyr o fynd i'r llys yn cael ei reoli'n ofalus gan ystyried eu hanghenion, heb fynd yn groes i'r egwyddor o dreial teg

105. Gall y profiad o fynd i'r llys fod yn rhan drallodus iawn o'r broses i ddioddefwyr, yn enwedig os ydynt yn rhoi tystiolaeth ac yn cael eu croesholi. Gall fod yn fwy brawychus fyth os nad oes cymorth ar gael yn ystafell y llys.

**Ein huchelgais yw:**

- **bod cyfathrebu ac ymgysylltu clir a phrydlon yn digwydd gyda dioddefwyr drwy gydol y broses, a mesurau arbennig ar gael i ateb anghenion dioddefwyr.**
- **dim ond tystiolaeth am y dioddefwr sy'n berthnasol i'r achos i'w defnyddio yn y llys a hygrededd y dioddefwr i beidio â chael ei danseilio gan fythau neu ragdybiaethau am dreisio.**

### Canfyddiadau

106. Dangosodd ein hymchwil ni ac ymchwil y Comisiynydd Dioddefwyr fod mynd i'r llys yn gallu achosi ail drawma difrifol i ddioddefwyr. Gall hyn ddigwydd am nifer o resymau: os yw'r dioddefwr yn teimlo eu bod yn cael eu bwlio gan groesholi ymwthiol, treialon yn cael eu gohirio droeon y tu allan i reolaeth y dioddefwr, a dod wyneb yn wyneb â'r ymosodwr yn y llys. Mae'r profiad yn anoddach fyth os nad yw'r gefnogaeth a'r cyfleusterau iawn ar gael yn ystafell y llys.

107. Mae achosion treisio'n cymryd hirach i ddod i'r llys ac yn cymryd hirach nag achosion troseddol eraill: yn Rhagfyr 2019 yr amser canolrifol rhwng anfon achos treisio oedolyn i Lys y Goron a chynnal y prif wrandawiad oedd 166 diwrnod, o'i gymharu â 42 diwrnod ar gyfer pob trosedd arall.[46] Mae hyn yn gwneud y broses cyfiawnder troseddol yn straen arbennig i ddioddefwyr treisio ac yn gwaethygu cyfraddau tynnu'n ôl. Mae'r pandemig yn cael effaith sylweddol ar ba mor gyflym y mae achosion yn cael eu gwrando.

108. Mae'r heddlu, y CPS, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS) a'r farnwriaeth yn gweithio'n galed i sicrhau y gellir gwrando achosion yn amserol a pharhau i gefnogi tystion yn ystafell y llys, er gwaetha'r mesurau pellter cymdeithasol parhaus sy'n cyfyngu ar y capasiti ffisegol diogel i gynnal treialon rheithgor. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn gwella eto ar y gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr drwy'r rhan yma o'r broses, er gwaetha'r cyfyngiadau a'r heriau hyn

109. Mae ystod eang o ddarpariaethau a pholisïau eisoes ar gael i gefnogi dioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhyw drwy brofiad y llys. Fodd bynnag, awgryma ein hymchwil nad yw'r polisïau sydd yn eu lle i gynorthwyo dioddefwyr yn y llys yn cael eu defnyddio'n effeithiol na'n gyson yn aml. O ganlyniad mae'r croesholi ymwthiol a

46 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019, Ystadegau'r Llysoedd Troseddol: Offeryn mesur amseroldeb grwpiau troseddau mewn achosion llysoedd troseddol

dod wyneb yn wyneb â'r ymosodwr yn adeiladau'r llys yn ddirboenus iawn i ddioddefwyr.

## Gweithredu

110. Fel y nodwn yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, **er y dylem wneud popeth allwn i sicrhau bod cymhelliad i bledio'n euog yn gynnar** drwy baratoi achosion o ansawdd, **dylem er hynny ddisgwyl gweld llawer mwy o achosion yn mynd i'r llys.** Pan ddaw'r achosion hyn i'r llys, mae angen **sicrhau bod treialon yn amserol.** Nid dim ond eu bod yn dechrau ar amser, ond nad yw dioddefwyr wedi gorfod aros yn rhy hir amdanynt. Dylai fod gan ddiffynyddion hyder bod eu hawl i dreial teg yn cael ei chynnal, ac ar yr un pryd dylem wneud ein gorau i leihau profiad sydd eisoes yn drallodus i ddioddefwyr.

111. Mae'r farnwriaeth eisoes yn blaenoriaethu achosion treisio wrth restru. Fodd bynnag, mae pryderon gwirioneddol am yr amser y maen nhw'n ei gymryd. Fel rhan o'r gwaith ehangach i adfer gwaith llys ac ateb y broblem, **rydym wedi dyrannu dros £250m i'r llysoedd y llynedd** i gynyddu capasiti ffisegol ac o bell fel bod gwrandawiadau'n gallu parhau – gan agor 60 o ystafelloedd llys Nightingale newydd, gwneud dros 400 o ystafelloedd yn ddiogel rhag Covid, cyflogi mwy o staff i gynorthwyo gwrandawiadau, a hwyluso gwrandawiadau o bell lle bo'n bosib. Byddwn yn parhau i wneud popeth allwn i gyflymu gwrando achosion, gan gynnwys sicrhau'r capasiti mwyaf o ran eisteddiadau yn Llys y Goron yn 2021-22, fel bod pob barnwr ac ystafell llys y gellir eu defnyddio, yn cael eu defnyddio. Rydym yn deddfu drwy Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd i wneud y llysoedd yn fwy effeithlon, moderneiddio prosesau a gwarchod amser Llys y Goron.

### *Bod cyfathrebu ac ymgysylltu clir a phrydlon yn digwydd gyda dioddefwyr drwy gydol y broses, a mesurau arbennig ar gael i ateb anghenion dioddefwyr*

112. Rydym yn gweithio ar **ddatblygu Fframwaith Ymarfer Gorau ar dreisio a throseddau rhyw** gan edrych ar y cymorth a roddir i ddioddefwyr cyn i'w hachos fynd i'r llys, ac unwaith eu bod yn y llys. Bydd y prosiect hwn yn dilyn dull aml-asiantaethol o adnabod yr arferion gorau a cheisio eu hailadrodd yn genedlaethol. Bydd yn edrych ar ystod o bethau gan gynnwys:
    - cyn mynd i'r llys, sut y mae asiantaethau partner yn cydgysylltu a chyfathrebu â'r dioddefwr ar wneud cais i'r llys am fesurau arbennig (y farnwriaeth sy'n gwneud penderfyniadau ar ddefnyddio mesurau arbennig).
    - cyfleusterau i sicrhau y rhoddir cymorth effeithiol i ddioddefwyr yn y llys, gan gynnwys unrhyw fesurau arbennig wedi eu cyfarwyddo gan y barnwr.
    - defnyddio cyswllt o bell ac ansawdd a darpariaeth y safleoedd cyswllt o bell.
    - cyfathrebu â dioddefwyr ynghylch amserlen eu hachos, dyddiadau gwrandawiadau a'r disgwyliadau o ran beth fydd yn digwydd yn y llys.
    - hyfforddiant i'r heddlu, erlynwyr a staff y llys ar ddelio â dioddefwyr treisio.

113. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd **Adran 28** Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 i rai tystion ac eisoes wedi cyflwyno'r mesur hwn i bob Llys y Goron fel bod dioddefwyr bregus yn gallu recordio tystiolaeth fideo o'u croesholiad ac ail-groesholiad ymlaen llaw, sy'n golygu nad oes raid iddynt ddelio â'r trawma o roi eu tystiolaeth yn y treial. Rydym ar hyn o bryd yn peilota defnyddio Adran 28 ar gyfer tystion a dioddefwyr wedi eu bygwth yn Llys y Goron Lerpwl, Leeds

a Kingston upon Thames. Gyda chytundeb y farnwriaeth, byddwn yn ehangu’r peilot **Adran 28** ar gyfer tystion a dioddefwyr wedi eu bygwth i dri Llys y Goron arall. Gan ddibynnu ar y gwerthusiad o’r peilot hwn, byddwn yn ceisio dechrau cyflwyno Adran 28 yn llawn i bob Llys y Goron ar gyfer tystion a dioddefwyr wedi eu bygwth a hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw newid deddfwriaeth pellach i gynorthwyo ei chyflwyno. Bwriadwn hefyd brofi defnyddio **Adran 28** ar gyfer tystion a dioddefwyr bregus yn y Llysoedd Ieuenctid i edrych ar sut y gallai’r broses weithio mewn amgylchedd gwahanol i ddioddefwyr a thystion bregus.

114. Byddwn hefyd yn adolygu ac annog defnyddio cyfweliadau tystion cyn-dreial sy’n cynorthwyo penderfyniadau’r CPS ac yn gallu delio ag unrhyw anghysondeb yn gynt yn y broses, a bydd annog defnyddio mwy ar y dull hwn yn cynorthwyo i gael mwy o achosion i fynd i’r llys.

***Dim ond tystiolaeth am y dioddefwr sy’n berthnasol i’r achos i’w defnyddio yn y llys a hygrededd y dioddefwr i beidio â chael ei danseilio gan fythau neu ragdybiaethau am dreisio.***

115. Mae Rhan III yr adroddiad hwn yn nodi pryderon a leisiwyd am fythau treisio a’r rôl y maen nhw’n ei chwarae yn y llys. Mae **mythau, rhagfarn a rhagdybiaethau am dreisio** yn cael eu creu am sut y mae dioddefwyr yn cael eu portreadu mewn cymdeithas, er enghraifft gall pobl gredu’n anghywir os yw dioddefwr wedi fflyrtio neu feddwi, eu bod wedi cyfrannu at gael eu treisio, neu os nad yw’r diffynnydd yn hoyw na allent fod wedi treisio dyn arall. Rydym yn glir nad yw’n dderbyniol i fythau am dreisio effeithio ar benderfyniadau yn y system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn nogfen Compendiwm Llys y Goron sy’n rhoi hawl i farnwyr roi cyfarwyddyd priodol i reithgorau i ymwrthod â’r risg o ragdybiaethau a stereoteipio’n ymwneud ag ymddygiad rhywiol. Mae hyn hefyd yn cael ei gydnabod yng nghanllawiau cyfreithiol diweddaraf y CPS ar dreisio.

116. Fodd bynnag, mae cryn ddadlau am effaith mythau treisio ar reithgorau. Dangosodd nifer sylweddol o astudiaethau fod mythau am dreisio’n effeithio ar reithgorau, ond roedd astudiaeth ddiweddar yn cwestiynu a yw mythau am dreisio mor gyffredin ag eraill a ganfuwyd. Mae angen i ni sicrhau nad yw hygrededd y dioddefwr yn cael ei danseilio gan gamdybiaethau a mythau am dreisio.

117. **Rydym wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith edrych ar y gyfraith, y canllawiau a’r ymarfer ar ddefnyddio tystiolaeth wrth erlyn troseddau rhyw difrifol** ac ystyried a oes angen diwygio’r sefyllfa er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o ganiatâd a niwed rhywiol gan sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu trin yn well a diffynyddion yn derbyn treial teg. Mae’r prosiect yn debygol o ystyried pethau fel sut yr ymdrinnir â mythau am dreisio fel rhan o broses y llys, a’r defnydd a wneir o dystiolaeth fel hanes rhywiol a chofnodion meddygol y dioddefwr.

118. Mae gan **gyfathrebu** rôl i’w chwarae mewn newid agweddau niweidiol cymdeithas sy’n arwain at stereoteipio a mythau am dreisio. Byddwn yn gweithio ar draws llywodraeth i ddatblygu ymgyrch a chreu newid ymddygiad hirdymor, gan weithredu canfyddiadau’r Adolygiad hwn a’r strategaeth arfaethedig ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched.

# Y camau nesaf a gwaith ehangach

119. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl, o ganlyniad uniongyrchol i'r camau yn y cynllun gweithredu hwn a gwaith ehangach ar draws y system cyfiawnder troseddol, y byddwn yn gweld nifer yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu, yn cael eu cyhuddo ac yna'n mynd i'r llys yn dychwelyd i'r hyn oeddent yn 2016. Fodd bynnag, ni fydd hynny'n ddiwedd ar y broses. Rydym eisiau gweld mwy o gynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu herlyn wrth i ddioddefwyr ddechrau teimlo'n fwy hyderus i adrodd treisio ac aros gyda'r broses cyfiawnder troseddol. Byddwn yn monitro perfformiad y system yn erbyn yr amcan hwn yn rheolaidd ac yn defnyddio adroddiadau cynnydd chwe mis a chardiau sgorio i gyfathrebu'r cynnydd a thynnu sylw at unrhyw beth sydd angen gwella ymhellach.

120. Os nad yw'r gweithredu a gynigiwn yn ildio digon o newid i'r system o fewn yr amser sydd mewn golwg gennym, rydym yn barod i ystyried newidiadau mwy sylfaenol i'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys edrych efallai ar fesurau ychwanegol i wella pa mor amserol yw'r broses, a chryfhau atebolrwydd a llywodraethu.

121. Mae hefyd angen gweld y gwaith yng nghyd-destun gwaith ehangach y Llywodraeth i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Byddwn eleni'n cyhoeddi Strategaeth traws-lywodraeth newydd ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched fydd yn helpu i drawsnewid yr ymateb i bob math o drais yn erbyn menywod a merched. Bydd yn adeiladu ar waith sydd eisoes yn digwydd, gan gynnwys mesurau yr ydym yn eu cyflwyno drwy Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd i sicrhau bod y troseddwyr rhyw mwyaf difrifol yn treulio mwy o amser dan glo, a hefyd yn cryfhau eto'r gwaith o reoli troseddwyr rhyw a rhai sy'n cyflwyno risg, gan gynnwys drwy wella Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol a Gorchmynion Risg Rhywiol i atal troseddu. Bydd y Strategaeth hon yn cael ei goleuo gan yr ymateb i Gais am Dystiolaeth ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched a fu'n rhedeg yn gynharach eleni ac y derbyniwyd dros 180,000 o ymatebion iddo gan y cyhoedd, y sector trais yn erbyn menywod a merched, academyddion a gweithwyr proffesiynol rheng flaen. Er bod ffocws yr adroddiad hwn wedi bod ar y system cyfiawnder troseddol, bydd y Strategaeth yn edrych y tu hwnt i hyn i gynnwys ffocws cryf ar atal.

122. Rydym hefyd yn ddiweddar wedi cyhoeddi'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Cham-drin Plant yn Rhywiol sy'n cyflwyno gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer atal, mynd i'r afael ac ymateb i bob math o gam-drin plant yn rhywiol, yn y wlad hon a thramor. Wrth ymateb i'r pryderon cynyddol am gam-drin a harasio rhywiol mewn ysgolion, mae'r Llywodraeth hefyd wedi comisiynu Ofsted i gynnal adolygiad o hyn. Er bod Addysg Uwch y tu allan i gwmpas adolygiad Ofsted, rydym yn gweithio'n agos â'r sector a'i gorff rheoleiddio, Y Swyddfa Fyfyrwyr, ar y materion hyn.

123. Cyn gweithredu’r mesurau yng nghynllun gweithredu’r Adolygiad, bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn ysgrifennu at bob Prif Gwnstabl yn pwysleisio bod angen gwella perfformiad ar frys. Bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn pwyso ar Brif Gwnstabliaid pob heddlu i sicrhau bod arweinyddiaeth weladwy ar lefel uwch yn yr heddluoedd i wthio’r gwelliannau mewn delio ag achosion RASSO; bod swyddogion yn ymwybodol o’r arferion gorau gyda chasglu tystiolaeth ddigidol, a bod heddluoedd yn creu ac achub ar bob cyfle i ddysgu o’r arferion da presennol, fel yr archwiliadau cynnar o rai dan amheuaeth mewn ymchwiliadau RASSO.

# Llyfryddiaeth


Allison, S a Boyer, T, 2019, Gwerthusiad o Gynllun Peilot Llys ar Drais Rhywiol, Seland Newydd: Gravitas Research and Strategy, ar gael yn: Sexual Violence Court Pilot Evaluation Report | The District Court of New Zealand (districtcourts.govt.nz)

Anglioni, A, 2015, Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Ymchwiliadau ac Erlyniadau Treisio yn Llundain, ar gael yn: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/dame_elish_angiolini_rape_review_2015.pdf

Y Ganolfan Cyfiawnder i Fenywod, y glymblaid Atal Trais yn erbyn Menywod (EVAW), Imkaan, ac adroddiad *Rape Crisis* Cymru a Lloegr *Decriminilisation of Rape: Why the justice system is failing rape survivors and what needs to change*, ar gael yn: https://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/wp-content/uploads/C-Decriminalisation-of-Rape-Report-CWJ-EVAW-IMKAAN-RCEW-NOV-2020.pdf

Gwasanaeth Erlyn y Goron, 2013, Cyhuddo, gwyrdroi cwrs cyfiawnder a gwastraffu amser yr heddlu mewn achosion yn ymwneud â honni ffugio honiadau o dreisio a thrais domestig: Adroddiad ar-y-cyd i’r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, ar gael yn: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/legal_guidance/perverting-course-of-justice-march-2013.pdf

Gwasanaeth Erlyn y Goron, 2018, Adroddiad Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) 2017–18, ar gael yn: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/cps-vawg-report-2017_0.pdf

Gwasanaeth Erlyn y Goron, 2019, Adroddiad Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) 2018-19, ar gael yn: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/cps-vawg-report-2019.pdf

Gwasanaeth Erlyn y Goron, 2020, Crynodeb o ddata’r CPS, Chwarter 4 2019–2020: Violence Against Women and Girls Annual Data Tables Year Ending March 2020, ar gael yn: https://www.cps.gov.uk/publication/cps-data-summary-quarter-4-2019-2020

Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, 2021, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Ar-y-cyd yr heddlu a’r CPS, ar gael yn: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/RASSO-JNAP-2021-v1-0.pdf

Gwasanaeth Erlyn y Goron, 2020, RASSO 2025: Strategaeth Treisio a Throseddau Rhyw Difrifol, ar gael yn: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/RASSO-2025-strategy.pdf

Atal Trais yn Erbyn Menywod a'r Ganolfan Cyfiawnder i Fenywod, 2020, Ffeil Dystiolaeth a gasglwyd ynghyd ar gyfer Adolygiad Barnwrol.

George, R a Ferguson, S, 2021, Adolygiad o ymateb y System Cyfiawnder Troseddol i dreisio a throseddau rhyw difrifol yn erbyn oedolion ar draws Cymru a Lloegr – Adroddiad Ymchwil, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref.

Gillen, J, 2019, Adroddiad ar y gyfraith a'r drefn mewn troseddau rhyw difrifol yng Ngogledd Iwerddon, ar gael yn: https://www.justice-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/justice/gillen-report-may-2019.pdf

Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth a'r Swyddfa Gartref, 2010, Adolygiad Stern: Adroddiad y Farwnes Vivien Stern CBE ar Adolygiad Annibynnol o sut yr ymdrinnir â chwynion treisio gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, ar gael yn: https://evaw-global-database.unwomen.org/-/media/files/un women/vaw/full text/europe/stern review 2010/stern review - 2010.pdf?vs=655

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM, 2019, 2019 Rape Inspection: A thematic review of rape cases by HM Crown Prosecution Service Inspectorate

Y Swyddfa Gartref, 2020, Canlyniadau troseddu Cymru a Lloegr am y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2020: tablau data, ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/crime-outcomes-in-england-and-wales-2019-to-2020

Y Swyddfa Gartref, 2020, Tablau data agored yr heddlu ar droseddau a gofnodwyd, a'u canlyniadau, ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/police-recorded-crime-open-data-tables

Jones, S, 2017, *The politics of rape: a feminist analysis of how the Rape Crisis movement challenges concepts of patriarchy,* [Traethawd israddedig heb ei gyhoeddi]. Prifysgol Anglia Ruskin.

Kelly, L, Lovett, J a Regan L, 2005, *A Gap or a Chasm? Attrition in reported rape cases.* Llundain: Yr Uned Astudiaethau Cam-drin Plant a Menywod.

Lilley Walker, S., Hester, M., McPhee, D. a Patsos, D., 2019, Rape, inequality and the criminal justice response in England: The importance of age and gender. Criminology & Criminal Justice

Lisak, D a Miller, P, 2002, *Repeat Rape and Multiple Offending Among Undetected Rapists. Violence and Victims,* https://assets.documentcloud.org/documents/1699822/2002-lisak-repeatrapeinundetectedrapists.pdf, tud. 73-84.

Swyddfa Plismona a Throseddu Maer Llundain, 2019, Adolygiad Treisio Llundain: Adolygiad achosion o 2016. Llundain: MOPAC.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019, Ystadegau Llysoedd Troseddol: Offeryn mesur amseroldeb grwpiau troseddau mewn achosion llysoedd troseddol, ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-court-statistics-quarterly-january-to-march-2019

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2020, Cod Ymarfer Dioddefwyr Troseddu Cymru a Lloegr (Y Cod Dioddefwyr), ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021) Ystadegau chwarterol y Llysoedd Troseddol: Hydref – Rhagfyr 2020 (Offeryn Pledio Llysoedd y Goron), ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-court-statistics-quarterly-october-to-december-2020

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021), Ystadegau chwarterol y System Cyfiawnder Troseddol: Rhagfyr 2020 (Offeryn data erlyniadau ac euogfarnau), ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2020

Molina, J. a Poppleton, S. 2020, *Rape survivors and the criminal justice system,* Llundain: Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr.

Molina, J, 2020, Ystadegau dioddefwyr, 2014-15 to 2018-19: gwasanaethau dioddefwyr, cyfiawnder adferol a gwybodaeth, cyngor a chymorth. Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr, ar gael yn: https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/victcomm2-prod-storage-119w3o4kq2z48/uploads/2020/06/2020-06-05_OVC-Victims-Statistics-part-2-1.pdf

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018, *Sexual offending: victimisation and the path through the criminal justice system*, ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/sexualoffendingvictimisationandthepaththroughthecriminaljusticesystem/2018-12-13

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021, *Sexual offences prevalence and trends,* Cymru a Lloegr am y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2020, ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/sexualoffencesprevalenceandtrendsenglandandwales/yearendingmarch2020

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021, *Nature of sexual assault by rape or penetration,* Cymru a Lloegr am y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2020, ar gael yn: Nature of sexual assault by rape or penetration, England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

*Rape Crisis* Cymru a Lloegr, dim dyddiad, ystadegau *Rape Crisis*, ar gael yn: https://rapecrisis.org.uk/get-informed/rcew-statistics/

R (ar gais y Glymblaid Atal Trais yn Erbyn Menywod) v Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (2021) EWCA 350, ar gael yn: https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2021/03/EVAW-v-DPP-Final-150321.pdf

Smith, O. a Daly, E., 2020, Gwerthuso'r Cynllun Eiriolwyr Achwynwyr Trais Rhywiol. 2020. Loughborough: Prifysgol Loughborough.

Thiara, R. a Roy, S., 2020, *Reclaiming Voice: Minoritised women and sexual violence key findings.* Llundain: Imkaan.

Thomas, C., 2020, “The 21st Century Jury: Contempt, Bias and the Impact of Jury Service”, Criminal Law Review (11), tud. 987 – 1011.

# Atodiad A – Rhai a gyfrannodd i’r adolygiad

Yn ogystal â’r Adolygiad Llenyddiaeth a gomisiynwyd fel rhan o’r rhaglen waith hon, y dogfennau cyfeiriol a ddefnyddiwyd fel rhan o adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, a’r dogfennau cyfeiriol a restrir yn y llyfryddiaeth uchod, fe wnaeth y sefydliadau canlynol hefyd gyfraniadau ychwanegol i’r adolygiad naill ai drwy ohebiaeth, cyfarfodydd neu dystiolaeth bellach wedi’i chyflwyno ar ran eu sefydliadau:

<u>Aelodau Is-Grŵp Troseddau Rhyw’r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol</u>

Swyddfa’r Twrnai Cyffredinol

Uned Weithredu’r Prif Weinidog

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Y Coleg Plismona

Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

Y Comisiynydd Dioddefwyr

Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

Y Swyddfa Farnwrol

Cyngor y Bar

Cymdeithas y Gyfraith

Yr Athro Laura Hoyano (fel bargyfreithiwr yn cynrychioli Cymdeithas y Bar Troseddol ac fel Athro’r Gyfraith)

Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Thân ac Achub EM

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM

Yr Athro Vanessa Munro

<u>Aelodau’r Grŵp Cyfeiriol Rhanddeiliaid</u>

Y Comisiynydd Dioddefwyr

Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

Comisiynydd Dioddefwyr Llundain

Refuge

Y Glymblaid Atal Trais yn Erbyn Menywod

*Rape Crisis* Cymru a Lloegr

Yr Ymddiriedolaeth Goroeswyr

Trust House Reading

LimeCulture

Canolfan Argyfwng Treisio a Llosgach De Essex

NIA

Goroeswyr Manceinion

Cymorth i Fenywod

Cymorth i Ferched Cymru

Galop

Imkaan

Cymorth i Ddioddefwyr

Amethyst SARC

SV2

Gwasanaeth Tystion Cyngor Ar Bopeth

CCS0521654242

978-1-5286-2667-5